

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

2024-2025

RHONDDA CYNON TAF

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg.



# CYNNWYS


TUDALEN

**PENNOD 1 - CRYNODEB Y CYFARWYDDWR** **3**

**PENNOD 2 - CYD-DESTUN** **6**
a) Arweinyddiaeth 9
b) Gweithlu 10
c) Adnoddau Ariannol 12

**PENNOD 3 - ASESU CYFLAWNIAD** **13**
a) Pobl 14
b) Atal 27
c) Partneriaeth ac Integreiddio 40
d) Llesiant 47
e) Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl 52
f) Ein Blaenoriaethau Gwasanaethau Cymdeithasol 2025/26 58

**PENNOD 4 - GWYBODAETH ARALL** **60**
a) Arolygu ac adolygiadau 61
b) Cwynion a sylwadau 62
c) Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth 64
d) Rhestr termau 64


Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

53634-12 • 2025

RHONDDA CYNON TAF

PENNOD 1

# CRYNODEB Y CYFARWYDDWR

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024-2025

**Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut y mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi darparu Gwasanaethau Cymdeithasol gan ddangos sut y mae ein gwaith wedi hyrwyddo a gwella llesiant y rhai rydym yn eu cefnogi. Mae'r adroddiad hefyd yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r blaenoriaethau y dywedwyd y byddem yn canolbwyntio arnynt dros y 12 mis diwethaf a gellir dod o hyd i'r rhain ym Mhennod 3: Asesu Cyflawniad. Mae adroddiad eleni mewn fformat newydd yn dilyn canllawiau wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru.**

Fel Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol eraill ledled Cymru, mae Rhondda Cynon Taf yn gorfod cydbwyso pwysau sylweddol ar wasanaethau a chymhlethdod cynyddol yr angen ac mae hyn yn erbyn cyd-destun o heriau recriwtio a chadw parhaus, lleihau cyllid awdurdodau lleol a gorfod gwneud arbedion. Er bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor, mae'r heriau hyn yn effeithio ar ein gallu i reoli disgwyliadau ac ateb y galw.

Er gwaethaf yr heriau sylweddol hyn, mae ein Gwasanaethau i Oedolion a Phlant wedi parhau i drawsnewid gwasanaethau, gan weithio ar y cyd, lle y bo'n bosibl, â'n partneriaid a'n cymunedau i nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â materion a gwneud y mwyaf o adnoddau i sicrhau bod gennym wasanaethau cynaliadwy a all barhau i ddiwallu anghenion a bodloni ein rhwymedigaethau statudol.

Mewn Gwasanaethau i Oedolion, gan ymateb i heriau cynaliadwyedd ariannol hirdymor cartrefi gofal y Cyngor a galw hirdymor sy'n newid a nodwyd yn unol â'n Strategaeth Llety Gofal sefydledig, gwnaethom unwaith eto adolygu ein darpariaeth fewnol ar gyfer cartrefi gofal a rheoli'r gwaith o gau Cartref Gofal Caeglas. Ochr yn ochr â hyn, gwnaethom barhau i ddatblygu ein rhaglen fuddsoddi mewn llety gofal sy'n werth miliynau gydag amrywiaeth o lety gofal ychwanegol a llety preswyl dementia newydd yn datblygu yn y Porth, Aberpennar a Glynrhedynog a llety anabledd dysgu arbenigol ym Mronllwyn a Phentre'r Eglwys.

Mae ein gwasanaethau dydd anabledd dysgu newydd 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' i wella mynediad at wasanaethau yn y gymuned, gwirfoddoli a chyfleoedd cyflogaeth wedi'u datblygu. Yn ogystal, gwnaethom gydgynhyrchu model gofal seibiant anableddau dysgu newydd fel y cam cyntaf i drawsnewid ein cynnig. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn o ofal seibiant, rydym eisoes wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio cysylltu bywydau fel gwasanaeth amgen ar gyfer lleoliad llety gofal a gofal seibiant.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom reoli'r gwaith o gaffael a throsglwyddo'n ddiogel ein contractau gofal cartref sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a staff i sicrhau bod 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt yn cael ei gynnwys yn ein manylebau gwasanaeth newydd. O fis Hydref 2024, gwnaethom newid ein prosesau rhyddhau o'r ysbyty ar gyfer gwasanaethau gofal cartref ac ailgysoni ein gwasanaeth i gydymffurfio â'r amserlenni a nodir yn fframwaith Rhyddhau i Adfer yna Asesu Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi golygu lleihad yn yr oedi o ran asesu ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty sydd wedi cyfrannu at leihau Oedi yn Achos Llwybrau Gofal yn ogystal â hyd arhosiad yn yr ysbyty.

Mae microfentrau wedi parhau i gael eu datblygu er mwyn ehangu opsiynau gofal cymdeithasol lleol, gan gynnig gofal wedi'i bersonoli a chynyddu integreiddio cymunedol. Mae'r darparwyr hyn wedi cael adborth cadarnhaol ar gyfer boddhad swydd ac ansawdd gofal.

Mae ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) i Oedolion wedi'i ddatblygu ymhellach i wella'n llawn y cyfleoedd i gysylltu â gwasanaethau ataliol yn y gymuned, galluogi a chymorth cynnar a datblygu'r defnydd o ffurflen ddigidol ar-lein ac ar gyfer Canolfan Gyswllt y Cyngor. Arweiniodd hyn at welliant sylweddol o ran amseroedd aros ar gyfer ymateb i asesiadau 'yr hyn sy'n bwysig'.

O fewn Gwasanaethau i Blant, rydym wedi gweld lleihad cyson yn nifer y plant sy'n derbyn gofal dros y blynyddoedd diwethaf ac yn 2024/25 roedd gostyngiad o 6% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2023/24). Mae'r lleihad hwn yn cyd-fynd â'n Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal a datblygu Model Ymarfer mewn Gwasanaethau i Blant sy'n un o elfennau'r Strategaeth. Mae'r ffocws ar wasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n darparu gwybodaeth, cyngor ac asesu, ochr yn ochr â system cymorth cynnar sydd wedi'i chynllunio i atal problemau teuluol rhag gwaethygu. Mae'r dull hwn yn galluogi unigolion i wneud dewisiadau gwybodus, cymryd camau annibynnol i gefnogi eu llesiant a, phan fo agen, cael mynediad at ymyriadau wedi'u targedu sy'n lleihau risg ac sy'n sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a cham-drin. Dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel iddynt sy'n mynd yn blant sy'n derbyn gofal.

Mae ein gwasanaeth cyn geni o'r enw Magu wedi gweld Gwasanaethau i Blant yn ymestyn ei gynnig i rai o'n rhieni mwyaf agored i niwed ac mae wedi dangos deilliannau gwych i deuluoedd ac mae'n newid sylweddol yn ein dull.

Cafodd yr Addewid Rhianta Corfforaethol ei gymeradwyo yn 2024. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaethom ofyn i sampl o blant â phrofiad o fod mewn gofal sut maent yn teimlo am y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Roedd yr ymatebion cyffredinol yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n byw' (95%) ac yn 'teimlo eu bod yn cael gofal da' (96%).

Parhaodd cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl ifainc â phrofiad o fod mewn gofal i gael eu darparu drwy ein rhaglenni llwyddiannus Camu i'r Cyfeiriad Cywir a GofaliWaith, gyda deilliannau cadarnhaol o ran cymwysterau a lleoliadau cyflogaeth.

Mae darparu nifer digonol o deuluoedd maeth, cartrefi plant a llety â chymorth wedi parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer Gwasanaethau i Blant yn 2024/25 ac rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifainc yn derbyn gofal yn nes at y cartref. Ar hyn o bryd, mae 73% o'r plant sy'n derbyn gofal yn byw yn Rhondda Cynon Taf, o ganlyniad i agor cartrefi plant newydd a chynyddu lleoliadau lleol, er bod dibyniaeth ar rai lleoliadau heb eu cofrestru yn parhau oherwydd prinder cyflenwad. Er gwaethaf ymdrechion parhaus i gynyddu cynhalwyr maeth a bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae nifer y cynhalwyr maeth wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ac mae hon yn sefyllfa sy'n cael ei phrofi'n ehangach ledled Cymru. Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i ddatblygu ein cartrefi plant sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

Rydym wedi parhau i adrodd ar gynnydd wrth wella sgiliau, cymorth a phrofiad staff drwy strategaethau uchelgeisiol i ddatblygu'r gweithlu mewn Gwasanaethau i Oedolion a Phlant. Yn 2024/25, rydym yn parhau i ymgorffori ein Hacademi Gwaith Cymdeithasol a chynyddu buddsoddiad yn ein cynllun "Magu ein gweithwyr ein hunain" sefydledig, a fydd yn gweld nifer uwch o staff presennol mewn rolau ymarferwyr gofal cymdeithasol yn dod yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig.

**Rwy'n hynod falch o'n cyflawniadau, y straeon newyddion da a'r astudiaethau achos, sy'n ein hatgoffa o'r effaith gadarnhaol a gawn ar fywydau trigolion Rhondda Cynon Taf. Ni ellid bod wedi cyflawni dim o hyn heb ymroddiad, cydnerthedd ac ymdrechion anhygoel ein gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi sicrhau bod ein trigolion wedi derbyn y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Rwy'n gobeithio bod yr adroddiad hwn yn dangos canlyniadau eu gwaith caled a diflino dros y flwyddyn ddiwethaf.**

PENNOD 2

# CYD-DESTUN

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024-2025

# Mesurau Perfformiad Cenedlaethol

## Gwasanaethau Oedolion

**AD/001:** Cyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd ar gyfer oedolion gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn 2024/25 oedd **12,522** – gostyngiad o 7.6% o gymharu â 13,553 o gysylltiadau yn 2023/24.

**AD/002:** O gyfanswm y cysylltiadau a gafwyd, darparwyd cyngor neu gymorth i **6,385** o gysylltiadau (51% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2024/25, o gymharu â 7,175 (52.9% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2023/24. Gostyngiad o 11% yng nghyfanswm nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf y rhoddwyd cyngor neu gymorth iddynt.

**AD/004:** Cwblhawyd **4,987** o asesiadau oedolion newydd yn 2024/25 - gostyngiad o 18% o gymharu â 6,081 yn 2023/24.

**AD/005:** O'r asesiadau oedolion newydd a gwblhawyd:

a. Roedd **1,378** yr aseswyd bod ganddynt anghenion cymwys (27.6%) dim ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth – gostyngiad o 7.1% o 1,484 yn 2023/24 (24.4% wedi'u diwallu gyda chynllun gofal a chymorth).

b. Roedd **2,889** yr aseswyd bod ganddynt anghenion cymwys (57.9%) yn gallu cael eu diwallu drwy unrhyw ffordd arall – gostyngiad o 26% o 3904 yn 2023/24 (64.2% wedi'u diwallu drwy unrhyw ffordd arall).

c. Roedd **720** (14.4%) nad oedd ganddynt anghenion cymwys i'w diwallu - cynnydd o 33.3% o 540 yn 2023/24 (8.9% heb angen cymwys).

**AD/012:** Roedd gan **4,210** o oedolion gynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2025 - gostyngiad o 1.7% o 4,282 yn 2023/24.

## Gwasanaethau i Blant

**CH/001:** Cyfanswm nifer y cysylltiadau a gafwyd ar gyfer plant gan wasanaethau cymdeithasol statudol yn 2024/25 oedd **28,372** – cynnydd o 1.2% o 28,035 o gysylltiadau yn 2023/24.

**CH/002:** O gyfanswm y cysylltiadau a gafwyd, darparwyd cyngor neu gymorth i **11,662** o gysylltiadau (41.1% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2024/25, o gymharu â 12,535 (44.7% o gyfanswm y cysylltiadau) yn 2023/24. Gostyngiad o 7% yng nghyfanswm nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd dros y flwyddyn ddiwethaf y rhoddwyd cyngor neu gymorth iddynt.

**CH/006:** Cwblhawyd **5,605** o asesiadau plant newydd yn 2024/25 - gostyngiad o 0.5% o 5,635 yn 2023/24.

**CH/007:** O'r asesiadau plant newydd a gwblhawyd:

a. Roedd **766** yr aseswyd bod ganddynt anghenion cymwys (13.7%) dim ond yn gallu cael eu diwallu gyda chynllun gofal a chymorth – gostyngiad o 3.9% o 797 yn 2023/24 (14.1% wedi'u diwallu gyda chynllun gofal a chymorth).

b. Roedd **3,336** yr aseswyd bod ganddynt anghenion cymwys (59.5%) yn gallu cael eu diwallu drwy unrhyw ffordd arall – cynnydd o 4.1% o 3,205 yn 2023/24 (56.9% wedi'u diwallu drwy unrhyw ffordd arall).

c. Roedd **1,503** (26.8%) nad oedd ganddynt anghenion cymwys i'w diwallu - gostyngiad o 8% o 1,633 yn 2023/24 (29% heb angen cymwys).

**CH/015:** Roedd gan **2,034** o blant gynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth 2025 - cynnydd o 12.8% o 1,803 yn 2023/2.

**Mae Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ffurfio rhan o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Corfforaethol ynghyd â Phrif Weithredwr y Cyngor a Chyfarwyddwyr Corfforaethol eraill. Dangosir strwythur rheoli Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol isod.**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**
Neil Elliott

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion**
Sian Nowell

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant**
Annabel Lloyd

Mae arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol y Cyngor yn gryf. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth uchel, gan dderbyn cymorth cryf a rhagweithiol gan Gabinet y Cyngor ac Aelod Arweiniol y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Mae gan y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant strategaethau gwasanaeth a chynlluniau darparu gwasanaethau sydd wedi'u datblygu o broses werthuso hunanwasanaeth sefydledig sy'n cyfrannu at yr amcan llesiant Pobl a Chymunedau yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor Gweithio gyda'n Cymunedau: 2024–2030 a chyflawni ein blaenoriaethau strategol a chynorthwyo prosiectau trawsnewid amrywiol ym mhob gwasanaeth.

Ar gyfer 2024/25, gweithredodd y Cyngor Fyrddau Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a Phlant er mwyn gwneud penderfyniadau a monitro trawsnewid y gwasanaethau i leihau pwysau ariannol a datblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym hefyd yn atebol drwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys adolygiadau perfformiad misol a gwiriadau sicrhau ansawdd, trafodaethau rheolaidd gydag Aelodau Cabinet ac uwch staff gan ddefnyddio'r data a gasglwn, adroddiadau i'r Cabinet, Pwyllgorau Craffu, a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ac ymgysylltu â staff.

Dangosir blaenoriaethau'r gweithlu yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn yr oeddem wedi bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod.

| Blaenoriaethau yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn |
| --- |
| Byddwn yn ffurfioli'r strategaeth gweithlu gwasanaethau i oedolion ac yn parhau i'w gweithredu. |
| Byddwn yn sicrhau bod y gweithlu Gwasanaethau i Blant yn llawn cymhelliant, yn ymgysylltu ac yn cael ei werthfawrogi; bod gan staff y capasiti, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd. |


Roedd 1,740 o staff yn cael eu cyflogi yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 31 Mawrth 2025. Mae 633 o'r staff yn cael eu cyflogi yn y Gwasanaethau i Blant, 1,065 yn y Gwasanaethau i Oedolion a 42 o fewn Comisiynu a Datblygu'r Gweithlu.

Yn 2024/25, roedd gostyngiad mewn staff yn y Gwasanaethau i Oedolion oherwydd trawsnewid gwasanaeth ac ailgomisiynu darpariaeth gofal a chymorth gan ein darparwyr sector annibynnol a gomisiynir yn hytrach na darparu'r gwasanaethau yn uniongyrchol.

O fewn y Gwasanaethau i Blant, gwnaeth trosiant staff gweithwyr cymdeithasol wella. Yn 2023/24, ymunodd 17 o weithwyr cymdeithasol cymwysedig â Rhondda Cynon Taf. Fodd bynnag, gadawodd yr un nifer. Yn 2024/25, ymunodd 15 o weithwyr cymdeithasol cymwysedig, ac roedd nifer y rhai a adawodd wedi bron haneru o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 9, sef cynnydd net o 6 yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi helpu i ddarparu mwy o sefydlogrwydd a pharhad.

Mae recriwtio a chadw yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol, ac mae'r cynnydd a wnaed yn 2024/25 sydd wedi'i arwain gan ein strategaethau gweithlu Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn cynnwys:

- Gwelliannau i'n marchnata recriwtio gan gynnwys hysbysebion swyddi mwy hygyrch, hysbysebion cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu, nosweithiau recriwtio rhithwir i weithwyr cymdeithasol a gwybodaeth well ar ein gwefan am gyfleoedd swyddi sydd ar gael.
- Datblygu Academi Gwaith Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf. Mae'r Academi yn ceisio dod â'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu y mae'r Cyngor yn eu darparu ar gyfer ein hymarferwyr gwaith cymdeithasol ynghyd o dan un ymbarél.
- Rhaglenni datblygu ar gyfer prif weithwyr cymdeithasol a chyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus i staff ennill profiadau ehangach i baratoi ar gyfer rolau rheolwyr tîm.
- Cyfleoedd hyfforddiant a mentora ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth presennol i alluogi symud ymlaen i rolau uwch swyddogion.



Mwy o fuddsoddiad yn ein cynllun "Magu ein gweithwyr ein hunain" sefydledig, sy'n creu cyfleoedd nawdd i staff Gwasanaethau i Oedolion a Phlant gael mynediad at raglen Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored ac sy'n sicrhau rôl gwaith cymdeithasol ar ôl cwblhau'r cofrestriad. Cwblhaodd 4 aelod o staff noddedig eu graddau yn 2024 ac maent bellach yn gweithio ar draws ein timau gwaith cymdeithasol, gyda disgwyl i 8 arall gwblhau eu graddau yn 2025.

Oherwydd llwyddiant ein cynllun gwaith cymdeithasol "Magu ein gweithwyr ein hunain" rydym wedi datblygu trefniant tebyg yn ein Gwasanaeth Synhwyraidd, lle mae cynorthwywyr adsefydlu ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg wedi'u cyllido a'u cynorthwyo i ymgymryd â'r cymhwyster dwy flynedd i ddod yn swyddog adsefydlu ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg (ROVI). Cymhwysodd un person yn 2025, gyda disgwyl i un arall gymhwyso yn 2026.


Mae'r datblygiadau uchod bellach yn esgor ar rai canlyniadau cadarnhaol.

**Mae ein swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol cyffredinol yn y Gwasanaethau i Blant yn lleihau'n gyson o 37.8% ym mis Ebrill 2024 i 32.6% ym mis Mawrth 2025 (ac o'r lefel uchaf o 44% ym mis Medi 2023).**

Mae cyflenwad digonol o weithwyr cymdeithasol cymwysedig profiadol ar gyfer gwaith llys ac amddiffyn plant yn y Gwasanaethau i Blant ynghyd â staff preswyl plant profiadol yn parhau i fod yn faes o risg sylweddol i'r Cyngor.

Er gwaethaf y cynnydd cadarnhaol a wnaed, rydym yn gwybod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd ac mae denu, recriwtio a chadw'r bobl orau sydd â'r gwerthoedd a'r agweddau iawn a'r ymrwymiad i weithio ym maes gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac iach. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Gwasanaethau i Blant wedi cyflwyno amrywiaeth o ddulliau drwy gyflwyno cylch cyfathrebu i gofnodi llais ymarferwyr. Nod y cylch cyfathrebu yw gwella cyfathrebu a llesiant ar draws y gwasanaeth, ac mae bellach wedi'i wreiddio'n gadarn.




Drwy'r cylch cyfathrebu hwn rydym wedi sefydlu themâu allweddol ynghylch 'Beth rydym yn ei wneud yn dda?' a 'Gwella profiad y gweithiwr'. Mae Is-grŵp Llesiant y Gweithlu wedi'i sefydlu i ganolbwyntio ar y meysydd gwella a amlygwyd gan ymarferwyr ac mae'r camau gweithredu hyd yma wedi cynnwys dechrau cynllun peilot gweithio hyblyg gwell, canolbwyntio ar lwyddiant ymarferwyr/tîm yn y cylchlythyr Gwasanaethau i Blant a cheisiadau rheolaidd am wobrau cenedlaethol.

Rydym yn ymwybodol bod y pwysau a wynebir gan staff gan gynnwys effaith trawma eilaidd yn golygu y dylem barhau i fod yn effro i'w hanghenion cymorth. Felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i gyfathrebu â'n staff i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu llesiant a chydnerthedd staff yn effeithiol.

**Mae'r Cyngor yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol, yn enwedig yn ein Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae pob awdurdod lleol yn profi'r pwysau ariannol hyn.**

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn heriol iawn yn ariannol unwaith eto i'r gwasanaethau cymdeithasol wrth i'r galw parhaus a'r cymhlethdod cynyddol ynghyd â'r argyfwng costau byw parhaus a chwyddiant uchel roi pwysau sylweddol ar ein darparwyr gofal a chostau gwasanaethau.

Y gyllideb net ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn oedd £201.4 miliwn, ond arweiniodd y pwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth, yn bennaf yn ymwneud â chostau gofal uniongyrchol a lleoli uwch ar draws Gwasanaethau i Oedolion a Phlant, at orwariant o £2.5 miliwn yn dilyn tynnu i lawr cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a gymeradwywyd (cyllid untro) a neilltuwyd i reoli'r risg o gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn ein Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn 2024/25, rydym wedi defnyddio grantiau cenedlaethol i reoli rhywfaint o'r pwysau ar wasanaethau yn ogystal â datblygu ein gwasanaethau mewn ffordd arloesol ac mewn partneriaeth, fel y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn. Derbyniwyd cyllid cyfalaf hefyd i ddatblygu ein rhaglenni moderneiddio llety yn y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant.

Mae proses rheoli ariannol ddatblygedig ar waith ar draws Meysydd Gwasanaeth sy'n cefnogi'r cynllun ariannol tymor canolig ac sy'n galluogi nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd cyllidebol. Bydd gweithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2025 ac sy'n cyflwyno ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat mewn gwasanaethau gofal a maeth i blant erbyn 2030 yn her sylweddol ar gyfer y Gwasanaethau i Blant dros y blynyddoedd nesaf.

Disgwylir i'r lefelau disgwyliedig o Grant Dileu Elw gan Lywodraeth Cymru fod yn llawer is na'r hyn sydd ei angen ar y Cyngor ac felly bydd angen i ni ddatblygu cynigion newydd i gyfateb gwerth y grant disgwyliedig yn well. O ganlyniad, bydd angen i'r Cyngor gario risg ariannol sylweddol, a bydd cynllun gweithredu llai yn cael effaith o ran dileu elw erbyn 2030.

O fewn Gwasanaethau i Oedolion, y brif risg fydd sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn ffioedd ar gyfer gofal a gomisiynir, sy'n cael ei waethygu gan gyfraddau annigonol o ofal nyrsio a ariennir a chyllid Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer lleoliadau cartrefi gofal gan Iechyd, gan roi pwysau ar y system gofal cymdeithasol a hyfywedd ariannol y farchnad cartrefi gofal, na ellir ei gynnal.

Yn ogystal, mae arbedion sylweddol i'w cyflawni yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2025/26 a bydd gofyniad i nodi mesurau effeithlonrwydd ac arbedion pellach yn 2026/27 ac ar ôl hynny ar draws cyllidebau'r Cyngor. Bydd hon yn her barhaus i'w rheoli wrth ddarparu gwasanaethau yng nghyd-destun galw mawr a chymhlethdod cynyddol.

PENNOD 3

# ASESU CYFLAWNIAD

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

**ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024-2025**

**Mae'r adran hon yn darparu hunanasesiad o'n cyflawniad ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn erbyn wyth safon ansawdd ar gyfer pob un o'r meysydd canlynol: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant.**

**Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:**

*“Mae pob person yn bartner cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros ei fywyd ac sy'n gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddo”*

*“Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu hynod fedrus, hynod gymwys sy'n cael ei gefnogi'n dda yn gweithio tuag at weledigaeth gyffredin”*

Dangosir blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â phobl yr ydym wedi'u cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn yr oeddem wedi bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod.

| Blaenoriaethau yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn |
| --- |
| Byddwn yn cytuno, yn cyfathrebu ac yn gweithredu'r Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion |
| Byddwn yn arwain ac yn rheoli'r rhaglen newid diwylliannol i gefnogi dull sy'n canolbwyntio ar gryfderau a chanlyniadau o ran gofal cymdeithasol i oedolion |
| Byddwn yn gweithredu'r cynnig gwasanaeth dydd wedi'i gydgynhyrchu i bobl ag anabledd dysgu i wella mynediad at wasanaethau cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth |
| Byddwn yn gweithredu ailfodelu'r ddarpariaeth gwasanaeth dydd i bobl hŷn |
| Byddwn yn cyflawni'r Strategaeth Cyfranogi sy'n amlinellu dull Gwasanaethau i Blant o gefnogi hawliau plant, pobl ifainc, rhieni, cynhalwyr a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth, i gael eu lleisiau wedi'u clywed a chymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau am eu bywyd a helpu i lunio datblygiadau gwasanaeth yn y dyfodol |

## Gwasanaethau i Oedolion

**Cytunodd Cabinet** y Cyngor ar **Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion 2024-2030** ym mis Medi 2024 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i dargedu a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau e.e. gwefan Dewch i siarad, digwyddiadau ymgysylltu a chynnig trafodaethau dros y ffôn, i annog cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol.

Mae'r Strategaeth yn nodi ein gweledigaeth, ein model newydd a'n chwe blaenoriaeth tan 2030, a'r deilliannau rydym yn disgwyl eu cyflawni, ochr yn ochr â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, ar ran trigolion Rhondda Cynon Taf.

1. **Byddwn yn cysylltu pobl â'u cymunedau.**
2. **Byddwn yn ei gwneud yn symlach ac yn haws i bobl fod yn annibynnol.**
3. **Byddwn yn cefnogi pobl i gael lle diogel i fyw lle maent yn teimlo'n gartrefol.**
4. **Rydym am i bobl gael system gysylltiedig o gefnogaeth.**
5. **Rydym am i bobl gael budd o weithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda, ymgysylltiedig.**
6. **Byddwn yn gwella safonau a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn barhaus.**

Rydym yn ymrwymedig i gydgynhyrchu atebion gyda phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, a byddwn yn gweithio gyda nhw i benderfynu ar sut rydym yn cyflawni'r blaenoriaethau hyn, gan ein rhoi mewn sefyllfa gref i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf.

Rydym yn ysgogi'r newid diwylliannol sy'n ofynnol gyda'n staff drwy gyfathrebu'r model newydd a'r cyfeiriad teithio yn ein Strategaeth Gwasanaethau i Oedolion gyffredinol. Mae'r gwaith hwn wedi'i fwriadu i drawsnewid ein dull ac ymgorffori diwylliant sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gyda'r Cyngor. Cafodd hyfforddiant allanol ei gomisiynu drwy'r Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar gyfer staff asesu a darparwyr. Yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant ffurfiol, cyflwynwyd nifer o sesiynau 'dysgu dros ginio' anffurfiol gan aelodau o'r Garfan Rheoli Gwasanaethau i Oedolion, i gefnogi staff asesu i gynnal asesiadau ac adolygiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

## Gwasanaethau Dydd Anabledd Dysgu Fy Niwrnod i, Fy Newis i

Cytunwyd ar ein model gwasanaethau dydd newydd wedi'i gydgynhyrchu i bobl ag anabledd dysgu yn y Cabinet ym mis Tachwedd 2023 ac yn dilyn adolygiad wedi'i gydgynhyrchu o brosiectau seiliedig ar waith y Cyngor a'r broses rheoli newid bydd ein model 'Fy Niwrnod i, Fy Newis i' newydd yn cael ei weithredu o fis Ebrill 2025. Bydd cymorth gwaith cymdeithasol yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â rheoli newid i sicrhau bod cynllunio unigol ar gyfer cymorth yn y dyfodol yn amserol. Yn ogystal, mae ein darparwyr byw â chymorth wedi'u comisiynu yn creu ac yn ehangu cyfleoedd cymunedol i bobl yn y gymuned gan gynnwys darparu rhai o'r prosiectau a gynhaliwyd gan y Cyngor yn flaenorol i gefnogi'r model newydd o wasanaeth. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda darparwyr y 3ydd sector i gefnogi cysoni cymorth anffurfiol â'r model newydd.

### Astudiaeth Achos: Canolfan Awtistiaeth Abercynon

Mae J wedi cael diagnosis o anabledd dysgu ac awtistiaeth. Mae'n mynychu Canolfan Awtistiaeth Abercynon am 3 diwrnod yr wythnos, sy'n rhoi cyfle iddo gwrdd â'i ffrindiau. Mae J yn mwynhau gweithgareddau yn y Ganolfan; fodd bynnag, mae'n llawer gwell ganddo fod yn yr awyr agored. Gwnaeth staff sy'n gweithio yn y Ganolfan wrando ar yr hyn yr oedd J yn ei gyfathrebu, ac edrychwyd ar ffyrdd o ymgysylltu â'r gymuned, natur, a'r awyr agored. Ymwelodd J â Cynon Valley Organics (CVO) a chael ychydig o sesiynau rhagflas o'r tasgau dan sylw, er mwyn helpu gyda'r gwaith o redeg gardd gymunedol a phrosiect organig. Mae gan J gysylltiad gwirioneddol â'r anifeiliaid yn CVO ac mae'n arbennig o hoff o'r gath fach newydd.

Hefyd, er mwyn cyrraedd CVO, mae J yn mwynhau cerdded ar hyd y llwybr lle mae'n gallu dweud helo wrth y cerddwyr cŵn rheolaidd a bod yn rhan o'r gymuned leol. Gan ddatblygu ei sgiliau annibyniaeth ymhellach, nododd staff fod J yn hoffi casglu sbwriel, ac maent wedi prynu eitemau fel codwr sbwriel, siaced lachar, a chot ddwrglos er mwyn helpu gyda chasglu sbwriel yn y gymuned leol. Oherwydd gwaith codi sbwriel J, mae wedi datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r gymuned leol sy'n diolch iddo'n rheolaidd am ei waith cadarnhaol, wrth gadw'r gymuned yn lân. Yr hufen ar y deisen i J oedd pan yrrodd gweithwyr y Cyngor lleol heibio yn eu fan, stopio a diolch i J am helpu i gadw Abercynon yn daclus. Roedd J yn wên o glust i glust gyda balchder pan gafodd ddiolch am ei waith cadarnhaol, ac roedd yn gwerthfawrogi'r sylw gwych yn fawr!

## Gwasanaethau Dydd i Oedolion Hŷn

Cafodd ein Gwasanaeth Dydd i Oedolion Hŷn ei ailgyflunio fel y cynlluniwyd yn ystod 2024. Cafodd Canolfan Ddydd Tonyrefail ei throsglwyddo i Ofal Ychwanegol Cwrt yr Orsaf ym Mhontypridd i gael budd o'r mesurau effeithlonrwydd costau a'r cyfleusterau modern ar y safle hwnnw. Symudodd Canolfan Ddydd Trecynon i fod yn gyfagos â Chanolfan Ddydd Cwmni Da (Dementia) a leolir yng Nghartref Gofal Preswyl Tegfan, unwaith eto er mwyn cael budd o'r mesurau effeithlonrwydd costau. Mae'r model gwasanaeth newydd wedi darparu amgylchedd mwy addas a gwell i unigolion, gan hyrwyddo integreiddio cymdeithasol, gwella llesiant a model mwy integredig o gyfleoedd yn ystod y dydd.

## Microfentrau

Rydym wedi parhau i ddatblygu microfentrau fel rhan o'n hymrwymiad i ehangu'r farchnad gofal cymdeithasol leol, cynyddu dewis a rheolaeth i unigolion, a chefnogi'r boblogaeth sy'n heneiddio mewn ffyrdd arloesol a chynaliadwy. Wedi'u hariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'u cefnogi gan Gatalyddion Cymunedol, mae 34 o ficrofentrau lleol wedi'u sefydlu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddarparu 500 awr o waith drwy daliadau uniongyrchol i 56 o unigolion lleol.

Mae microfentrau yn ddarparwyr gofal bach, yn y gymuned sydd wedi'u cynllunio i ateg gofal cartref traddodiadol. Maent yn cynnig dull personol, gan gynyddu dewis a rheolaeth i unigolion sydd ag anghenion gofal wrth ddarparu cyfleoedd i entrepreneuriaid lleol weithio yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae cyflwyno microfentrau wedi gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau gofal yn y gymuned yn sylweddol, yn ogystal ag unrhyw waith y mae pobl yn dewis talu amdano'n breifat.

Gwnaeth gwerthusiad a oedd yn cynnwys cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda derbynwyr gofal, eu teuluoedd, cynhalwyr, gweithwyr cymdeithasol, a chydweithwyr y Cyngor, amlygu sawl llwyddiant allweddol:

**Boddhad Swydd Uchel:** Nododd cynhalwyr microfentrau lefelau sylweddol o foddhad swydd, gan briodoli hyn i hyblygrwydd a natur ystyrlon eu gwaith. Roeddent yn gwerthfawrogi'r gallu i dreulio mwy o amser gyda phob unigolyn, gan feithrin perthnasoedd dwyffordd dwfn a pharchus.

**Adborth Cadarnhaol:** Gwnaeth derbynwyr gofal a'u teuluoedd ganmol y gofal personol ac urddasol a ddarperir gan ficrofentrau. Roedd presenoldeb cyson yr un cynhaliwr ac amseroedd ymweld hirach yn cael eu gwerthfawrogi'n arbennig.

**Integreiddio Cymunedol:** Mae microfentrau wedi bod yn hanfodol wrth adeiladu cysylltiadau cymunedol. Mae llawer o gynhalwyr yn byw yn lleol, gan gynyddu ymddiriedaeth a dibynadwyedd. Maent hefyd wedi gwella'r cysylltiadau rhwng cynhalwyr a'r unigolion y maent yn eu cefnogi.

**Cymorth gan Gatalyddion Cymunedol:** Mae'r cymorth a ddarperir gan Gatalyddion Cymunedol wedi bod yn amhrisiadwy wrth helpu microfentrau i sefydlu a ffynnu.

**Cysylltu â'r rhai sy'n ceisio gofal a chymorth gyda microfentrau:** Mae Gwasanaeth Broceriaeth y Cyngor wedi bod yn hanfodol ar gyfer cydlynu gofal a chymorth i unigolion sy'n cael y budd mwyaf o ficrofentrau. Mae'r cyfeiriaduron lle mae microfentrau wedi'u rhestru (Tribe a Small Good Stuff) hefyd yn galluogi pobl i ddod o hyd i'w hatebion gofal eu hunain.

## Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Blynyddol

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr gwasanaethau blynyddol a ofynnodd i sampl o oedolion 18 oed a throsodd, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y cafodd y sampl ei dewis, sut maent yn teimlo am y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Eleni cwblhaodd 496 o bobl yr arolwg o gymharu â 724 o bobl yn 2023/24. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, fel y dangosir yn y tabl isod, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maent yn byw' ac yn 'byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant'.

**MESUR ANSAWDD GWASANAETH:** O'r 496 o oedolion a ymatebodd i'r arolwg:

Mae **93%** **yn byw mewn cartref sy'n cefnogi eu llesiant** (o gymharu â 95% yn 2023/24 a 92% yn 2022/23).

Mae **80%** **yn gwybod â phwy i siarad am eu gofal a'u cymorth** (o gymharu â 84% yn 2023/24 a 78% yn 2022/23).

Mae **65%** **yn teimlo'n rhan o'u cymuned** (o gymharu â 71% yn 2023/24 a 65% yn 2022/23).

Mae **94%** **yn hapus gyda'u teulu, ffrindiau, a chymdogion** (o gymharu â 97% yn 2023/24 a 93% yn 2022/23).

Mae **92%** **yn teimlo'n ddiogel** (o gymharu â 95% yn 2023/24 a 91% yn 2022/23).

Dywedodd **80%** **eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt** (o gymharu â 78% yn 2023/24).

Roedd **90%** **yn cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd ei angen arnynt** (o gymharu â 93% yn 2023/24 ac 86% yn 2022/23).

Roedd **90%** **wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch sut roedd eu gofal a'u cymorth yn cael eu darparu** (o gymharu ag 87% yn 2023/24).

Mae **96%** **wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd** (o gymharu â 94% yn 2023/24 a 96% yn 2022/23).

Cafodd **98%** **eu trin ag urddas a pharch** (o gymharu â 99% yn 2023/24 a 96% yn 2022/23).

Mae **98%** **yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent wedi'u cael** (o gymharu â 95% yn 2023/24 a 96% yn 2022/23).

Roedd **66%** **yn cytuno mai eu dewis nhw oedd byw mewn cartref gofal preswyl** (o gymharu â 64% yn 2023/24 a 60% yn 2022/23).

Roedd **79%** **yn cael y cyngor, yr help a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer byd oedolion** (o gymharu â 74% yn 2023/24). Nodyn: cafodd y cwestiwn ei ateb gan bobl ifainc 18 i 24 oed yn unig.

Gwnaethom gynnal arolwg blynyddol gyda chynhalwyr di-dâl a gwblhawyd gan 32 o gynhalwyr di-dâl o gymharu â 45 yn 2023/24. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, fel y dangosir yn y tabl isod, gyda 100% o gynhalwyr di-dâl yn dweud 'do' neu 'weithiau' ynghylch bod yn rhan o benderfyniadau am y gofal a'r cymorth a ddarperir i'r person y maent yn gofalu amdano.

**MESUR ANSAWDD GWASANAETH:**
O'r 32 o gynhalwyr di-dâl a ymatebodd i'r arolwg:

**Dywedodd 87% eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt** (o gymharu â 80% yn 2023/24).

**Mae 72% yn teimlo'n rhan o'u cymuned** (o gymharu â 77% yn 2023/24).

**Mae 88% yn hapus gyda'u teulu, ffrindiau, a chymdogion** (o gymharu â 93% yn 2023/24).

**Mae 97% yn teimlo'n ddiogel** (o gymharu â 100% yn 2023/24).

**Mae 86% yn gwybod â phwy i siarad am gymorth** (o gymharu â 95% yn 2023/24).

**Mae 97% wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd** (o gymharu â 100% yn 2023/24).

**Roedd 100% wedi cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau ynghylch sut roedd y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu ar gyfer y person y maent yn gofalu amdano** (o gymharu ag 87% yn 2023/24).

**Roedd 94% yn cael y wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd eu hangen arnynt** (o gymharu â 98% yn 2023/24).

**Cafodd 100% eu trin ag urddas a pharch** (o gymharu â 98% yn 2023/24).

**Mae 87% yn teimlo eu bod yn cael cymorth i barhau yn eu rôl ofalu** (o gymharu â 95% yn 2023/24).

**Mae 93% yn hapus gyda'r cymorth y maent yn ei gael** (o gymharu â 100% yn 2023/24).



## Gwasanaethau i Blant

Yn 2024/25, rydym wedi gwella ein **tudalennau gwe Gwasanaethau i Blant** ar gyfer rhieni a chynhalwyr. Lansiwyd y wefan ar ei newydd wedd ar 1 Mai 2024 ar gyfer rhieni, cynhalwyr a theuluoedd a phobl sy'n gadael gofal a datblygwyd cynllun cyfathrebu i hyrwyddo'r wefan drwy'r wefan Gorfforaethol a datblygu posteri a chod QR mewn lleoliadau amrywiol ledled Rhondda Cynon Taf. Gwnaethom hefyd gydgynhyrchu **tudalennau gwe pwrpasol i blant a phobl ifainc** gyda phlant â phrofiad o fod mewn gofal fel bod gwybodaeth ar gael mewn iaith a fformat hygyrch.

## Cynhalwyr Ifainc

Rydym yn comisiynu gwasanaeth cymorth i gynhalwyr ifainc (5-17 oed) gan Gweithredu dros Blant. Mae cymorth penodol ar gael drwy swydd a ariennir yn allanol i Gynhalwyr sy'n Oedolion Ifainc (18-25 oed). Mae cymorth i gynhalwyr sy'n frodyr a chwiorydd (plant y mae gan eu brawd neu chwaer anghenion ychwanegol) bellach yn cael ei ddarparu gan Gweithredu dros Blant. Dros flwyddyn ariannol 2024/25, mae 90 o grwpiau cynhalwyr ifainc a 30 o sesiynau grŵp cynhalwyr sy'n frodyr a chwiorydd wedi'u darparu. Cafodd y sesiynau grŵp hyn eu defnyddio 468 o weithiau gan gynhalwyr ifainc a 279 o weithiau gan gynhalwyr sy'n frodyr neu chwiorydd. Drwy'r prosiect, mae 24 o deithiau am ddim i gynhalwyr ifainc a 20 o deithiau am ddim i'n cynhalwyr ifanc sy'n frodyr a chwiorydd wedi'u cynnig. Mae'r Gwasanaeth wedi darparu 12 o weithgareddau sesiynau i deuluoedd lle daeth 35 o gynhalwyr ifainc, rhieni a brodyr a chwiorydd, ac mae 59 o gynhalwyr sy'n frodyr a chwiorydd, rhieni a brodyr a chwiorydd wedi mynychu. Rydym hefyd wedi darparu 4 arhosiad preswyl a dros nos a gyrchwyd gan 45 o gynhalwyr ifainc a 25 o gynhalwyr sy'n frodyr a chwiorydd.

### Astudiaeth Achos: Cynhalwyr Ifainc

Ymunodd NM â ni fel cynhaliwr ifanc i'w thad, a oedd yn dioddef o glefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint Mam oedd y prif gynhaliwr gartref ond yna cafodd strôc ar Noswyl Nadolig. Roedd y rhagolygon yn llwm. Drwy ryw wyrth llwyddodd Mam i ddod allan o'r ysbyty ond roedd wedi colli pob symudedd. Gadawodd Dad y cartref teuluol a phrin fu'r cyswllt ganddo ers hynny. Cynyddodd hyn rôl ofalu N gan ei gwneud yn unig gynhaliwr i Mam. Rhaid i N wneud popeth o gwmpas y cartref yn ogystal â gofalu am Mam. Mae N yn cael trafferth yn gymdeithasol oherwydd ei phroblemau ei hun ac mae'n ei chael yn anodd rhyngweithio â chyfoedion mewn grwpiau.

Trosolwg o'r cymorth a gafwyd.

- **Cymorth un i un**
- **Sesiynau grŵp a Gweithdai**
- **Amser i siarad â staff mewn grwpiau a thrwy'r sesiynau un i un**
- **Arosiadau preswyl, teithiau a gweithgareddau**
- **Cymorth i deuluoedd ac ymdrin â gwasanaethau cymorth i gynhalwyr ar gyfer gofal Mam.**

Deilliannau a gyflawnwyd gan N wrth dderbyn cymorth:

**Cymorth un i un:** mae N wedi magu hyder drwy'r cymorth a gafodd ac mae wedi dechrau siarad am ei chartref, yr ysgol, a bwlio blaenorol yn yr ysgol. Mae cyfarfodydd gyda gweithwyr cymdeithasol yn sicrhau bod N a Mam yn cael y cymorth sydd ei angen er mwyn i Mam allu aros gartref.

**Sesiynau grŵp:** Mae N wrth ei bodd gyda'r sesiynau grŵp ac heb golli un ohonynt. Mae wedi integreiddio'n raddol i grwpiau bach o ffrindiau. Mae N bellach yn rhyngweithio mwy, ac mae hyn wedi rhoi seibiant angenrheidiol iddi o'r rôl ofalu gartref.

**Amser i siarad:** Mae N wedi defnyddio ei hamser i siarad i ffwrdd o'i chartref. Mae wedi agor i fyny mwy a thrafod pethau sy'n bwysig iddi. Pan mae N wedi teimlo ei bod wedi siarad digon, bydd hi'n troi at ei phynciau cysur, Pokémon ac Anime.

**Cyrsiau preswyl, teithiau a gweithgareddau:** Mae N wedi mynd ar gyrsiau preswyl ac mae hefyd wedi mwynhau cael mynediad at y teithiau a'r gweithgareddau.

Bydd N yn parhau i dderbyn cymorth, sy'n amhrisiadwy iddi. Bydd N hefyd yn parhau i wthio am Gynorthwyydd Personol gartref i Mam er mwyn lleihau tasgau cartref ar gyfer N fel ei bod yn gallu canolbwyntio ar ei gwaith ysgol.

## Arolwg Defnyddwyr Gwasanaethau Blynyddol

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi cynnal arolwg blynyddol a ofynnodd i sampl o blant a phobl ifainc, a oedd â chynllun gofal a chymorth ar y diwrnod y cafodd y sampl ei dewis, sut maent yn teimlo am y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Gofynnir cwestiynau i blant a phobl ifainc hefyd am beth maent yn ei wneud yn eu hamser rhydd a pha weithgareddau yr hoffent eu gwneud ond nad ydynt yn gallu eu gwneud. Gofynnir iddynt hefyd 'A oes gennych unrhyw beth arall i'w ddweud sy'n bwysig i chi – mae eich llais yn bwysig'. Dywedodd 18% 'oes' a defnyddiodd rhai plant y testun rhydd i roi rhagor o fanylion am hyn. Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i ddeall profiad y defnyddiwr gwasanaethau yn fwy ac mae'n llywio'r hyn sydd angen newid.

Cwblhaodd cyfanswm o 117 o blant yr arolwg, o gymharu â 169 yn 2023/24. Roedd yr ymatebion cyffredinol i'r arolwg yn gadarnhaol, fel y dangosir yn y tabl isod, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn 'teimlo'n ddiogel lle maent yn byw' ac yn 'teimlo eu bod yn cael gofal da'.

**MESUR ANSAWDD GWASANAETH:**
O'r 117 o blant a phobl ifainc a ymatebodd i'r arolwg:

**Mae 89% yn byw mewn cartref lle maent yn hapus** (o gymharu â 92% yn 2023/24 a 90% yn 2022/23).

**Mae 81% yn gallu siarad â'u gweithwyr cymdeithasol am y pethau sy'n bwysig iddynt** (o gymharu ag 83% yn 2023/24).

**Mae 81% yn teimlo eu bod yn perthyn yn yr ardal lle maent yn byw** (o gymharu ag 86% yn 2023/24 ac 84% yn 2022/23).

**Mae 77% yn gwybod pam mae ganddynt weithiwr cymdeithasol** (o gymharu ag 86% yn 2023/24).

**Mae 96% yn teimlo eu bod yn cael gofal da** (o gymharu â 95% yn 2023/24).

**Mae 95% yn teimlo'n ddiogel lle maent yn byw** (o gymharu â 98% yn 2023/24 a 95% yn 2022/23).

**Roedd 81% yn dweud bod rhywun yn gwrando ar eu barn ar eu gofal a'u cymorth** (o gymharu ag 82% yn 2023/24 ac 88% yn 2022/23).

**Mae 94% wedi gallu defnyddio eu hiaith bob dydd** (o gymharu â 94% yn 2023/24 a 97% yn 2022/23).

**Roedd 72% yn cael y cyngor, yr help a'r cymorth a fydd yn eu paratoi ar gyfer byd oedolion** (o gymharu ag 82% yn 2023/24 a 93% yn 2022/23). Nodyn: cafodd y cwestiwn ei ateb gan bobl ifainc 16/17 oed yn unig.

## Mwy Na Geiriau

**Rydym yn parhau i ymateb yn effeithiol i ofynion Safonau'r Gymraeg a fframwaith Llywodraeth Cymru "Mwy Na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol" - gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn Nhîm y Gymraeg y Cyngor i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn. Rydym hefyd yn monitro ein darparwyr gwasanaethau allanol i sicrhau eu cydymffurfiaeth. Nid oes materion wedi'u nodi.**

Rydym yn gwneud cynnig rhagweithiol o gyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna yw dewis rhywun. Mae pobl y mae'n well ganddynt dderbyn gwasanaethau a chymorth drwy'r Gymraeg yn cael eu hamlygu yn ein system. Mae ein holl gyhoeddiadau yn ddwyieithog, gan sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae staff yn ymwybodol o ofynion y Safonau a'r hyn y mae'n ei olygu i sut y maent yn gweithio. Rydym hefyd yn hyfforddi ac yn datblygu staff i'w hannog i ddysgu Cymraeg a darparu briffiau a nodiadau atgoffa am y gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i sicrhau cyllid gan Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno Cwrs Codi Hyder i 7 aelod o staff lefel 3+ er mwyn iddynt fagu hyder a geirfa i gyflawni eu rôl yn Gymraeg yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae staff yn cael tiwtor un i un yn wythnosol am gyfnod o 3 mis gyda'r opsiwn o grwpiau llai ar gyfer rolau cyffredin a boreau coffi ar gyfer cymorth cymheiriaid a chyfle i sgwrsio. Mae gan y prosiect sawl budd disgwyliedig; roedd llawer yn cysylltu â'n Strategaeth Gweithlu gan gynnwys:

- Cyfleoedd addysg a hyfforddiant o ansawdd da
- Meithrin capasiti ein gweithlu i fodloni gofynion y boblogaeth
- Hyrwyddo ein cynnig rhagweithiol
- Cynyddu cyfleoedd i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Mae cysylltiadau wedi'u gwneud hefyd ag arweinwyr y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i nodi wardiau Cymraeg eu hiaith i bennu cwmpas mentrau cydweithio yn yr iaith yn y dyfodol.

Cyfanswm yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion yn ystod 2024/25 oedd 4,911. Roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol o'r Gymraeg ym mhob achos (100%). Derbyniwyd y cynnig hwn mewn 42 o achosion sy'n debyg o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Yn y Gwasanaethau i Blant, roedd tystiolaeth o'r cynnig rhagweithiol y Gymraeg mewn 1,940 o achosion sy'n fwy na'r 1,305 yn 2023/24. Mae hyn i'w briodoli i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff o'r angen i wneud cynnig rhagweithiol o'r defnydd o'r Gymraeg. Cafodd y cynnig ei dderbyn mewn 7 achos.

## Astudiaeth Achos: Cymraeg yn y Gweithle a Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

Yn dilyn hyfforddiant ar asesiadau o effaith y Gymraeg, gwnaeth y Rheolwr Newid Sefydliadol a Thrawsnewid yn y Gwasanaethau i Blant gymryd camau cadarnhaol er mwyn helpu staff i ddatblygu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda phobl a hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o ofal drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth weithredu'r Strategaeth Gweithlu, mae wedi pwysleisio wrth ei thîm bwysigrwydd dewis iaith yn y sector gofal.

Mae hyn yn cynnwys cofrestru 7 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ond sy'n llai hyderus yn ei defnyddio yn broffesiynol i fynd ar gwrs arbenigol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn helpu i gynyddu eu hyder i ddarparu gwasanaethau yn yr iaith.

Mae'r Garfan hefyd yn gweithio gyda Gwasanaethau Cymraeg ar ddatblygu fideo hyrwyddo, lle byddant yn dathlu eu defnydd eu hunain o'r Gymraeg yn y gwaith ac yn hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r hawliau iaith hyn ymhlith y cyhoedd ac annog rhagor o staff i fod yn hyderus pan fyddant yn defnyddio eu Cymraeg yn y gwaith.







## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

**Rydym wedi cymeradwyo'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Dileu hiliaeth yn y gweithle, o dan arweiniad ADSS Cymru a'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â hiliaeth yn y gweithlu gofal cymdeithasol.**

Yn 2024/25, gwnaeth aelodau o'r Garfan Rheoli Gwasanaethau i Blant ac ymarferwyr eraill Gwasanaethau i Blant fynychu hyfforddiant Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru. Mae hyn wedi cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a hyrwyddo ystyriaeth bellach o sut i wneud gwasanaethau yn fwy hygyrch i aelodau o'r gymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn ogystal â gwneud y gwasanaethau yn fwy teg. Mae hyn yn amlwg yn natblygiad arweiniad gwledydd ar gyfer Affganistan, Eritrea, Iran, Irac, De Sudan a Syria i ymarferwyr a chynhalwyr maeth sy'n cefnogi plant digwmni sy'n ceisio lloches, i roi gwybodaeth a mwy o ddealltwriaeth iddynt am wledydd gwreiddiol y bobl ifainc. Rydym hefyd wedi creu arweiniad ar gyfer Cynghorau Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr Cyngor er mwyn helpu'r bobl ifainc pan fyddant yn symud i'r rhanbarth am y tro cyntaf.

Yng Nghartref Gofal Tŷ Pentre y Cyngor yng nghanol Cwm Rhondda, mae amrywiaeth yn fwy na dim ond demograffig - mae'n gryfder. Gydag aelodau staff o gefndiroedd diwylliannol amrywiol, gan gynnwys aelodau tîm sy'n wreiddiol o Nigeria, gwnaethom benderfynu cynnal ein Diwrnod Cyfnewid Diwylliant cyntaf erioed. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r aelodau tîm o Nigeria rannu eu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog â phreswylwyr a chydweithwyr, gan feithrin cynwysoldeb, dealltwriaeth, a llawenydd. Nodau allweddol y Diwrnod Cyfnewid Diwylliant oedd:

- Dathlu diwylliant a threftadaeth staff o Nigeria.
- Creu profiad diddorol ac addysgol i breswylwyr.
- Annog bondio tîm a hyrwyddo amrywiaeth, dealltwriaeth a chynhwysiant yn y gweithle.

Daeth y syniad ar gyfer y Diwrnod Cyfnewid Diwylliant i'r amlwg yn ystod sesiynau goruchwylio, lle nododd staff eu bod yn cael trafferth integreiddio â'r tîm staff ar adegau. Gofynnwyd am hyfforddiant ychwanegol ar baratoi bwyd, gan nad oedd staff yn adnabod eitemau ar y fwydlen. Gwnaethom benderfynu cychwyn digwyddiad sy'n canolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydlyniant staff. Gwirfoddolodd staff o Nigeria yn frwdfrydig i arwain y fenter. Gweithiodd staff gyda'i gilydd am sawl wythnos, gan ddod o hyd i gynhwysion, paratoi addurniadau, a chreu rhestr chwarae o gerddoriaeth Afrobeat a Highlife o Nigeria. Roedd cyfathrebu yn allweddol, gan sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y broses.

Daeth Tŷ Pentre yn fyw gyda lliwiau a synau bywiog wrth i'r staff o Nigeria gyrraedd mewn gwisg draddodiadol, gan gynnwys printiau Ankara, penwisgoedd Gele ac Agbadas. Roedd yr awyrgylch yn gynnes, yn llon ac yn llawn chwilfrydedd a chyffro. Cafodd y preswylwyr eu gwahodd i fwynhau:

- Bwydlen flasu a oedd yn cynnwys reis jollof, llyriaid wedi'u ffrio, puff-puffs, reis Affricanaidd wedi'i ffrio, iam wedi'i ffrio, efo riro, akara (bara pob Nigeraidd) a moi-moi (pwdin ffa sawrus).
- Cerddoriaeth draddodiadol Nigeria yn chwarae yn y cefndir gan fand byw.
- Sesiynau adrodd straeon lle roedd staff a'u teuluoedd yn rhannu atgofion personol o fywyd yn Nigeria, gan drafod pynciau fel bywyd y pentref, yr ysgol, priodasau ac arferion bwyd.
- Arddangosiadau dawns, a oedd yn annog cyfranogiad gan breswylwyr a staff.

Dewisodd rhai unigolion wisgo cyfwisgoedd wedi'u hysbrydoli gan Affrica a ddarparwyd gan staff, gan ychwanegu at yr ymdeimlad o ddathlu a chynhwysiant.

## Astudiaeth Achos: Adborth ar y Diwrnod Cyfnewid Diwylliant yng Nghartref Gofal Tŷ Pentre.

Cafwyd ymateb cadarnhaol tu hwnt gan breswylwyr a staff. Mynegodd y preswylwyr ddiddordeb diffuant mewn dysgu am draddodiadau Nigeria, yn aml yn gofyn cwestiynau meddylgar ac yn hel atgofion am eu teithiau a'u profiadau diwylliannol eu hunain.

***'Roedd y bwyd yn hynod flasus! Nid wyf erioed wedi blasu unrhyw beth tebyg iddo, ac roeddwn wrth fy modd â'r gerddoriaeth—roedd yn gwneud i mi eisiau dawnsio,'*** meddai un preswylydd, gan wenu.

***'Waw!' meddai un aelod o'r teulu, 'Dyma un o'r digwyddiadau gorau i mi ei weld erioed, rydw i wedi fy syfrdanu gan yr hyn y mae'r merched wedi'i roi at ei gilydd'***

Roedd cydweithwyr hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gysylltu ar lefel ddyfnach â'u cymheiriaid o Nigeria.

***"Roedd yn arbennig iawn gweld ein cydweithwyr yn disgleirio ac yn rhannu rhywbeth mor bersonol. Daeth â ni i gyd yn agosach,"*** nododd aelod o staff.

Ysgrifennodd aelod o staff yn y sgwrs grŵp staff, ***'Roedd yn anhygoel bod yn rhan o heddiw. Roedd yn hyfryd cael ein cyflwyno i'ch teuluoedd gwych ac rwy'n siŵr eu bod yn hynod falch ohonoch fel yr ydym ni'***

Dywedodd y staff a gynlluniodd a threfnu'r digwyddiad, ***'Diolch yn fawr am ein derbyn ni fel yr ydym',*** gydag aelod arall o staff yn ychwanegu, ***'Mae eich derbyniad o'n treftadaeth ddiwylliannol a'n teulu yn ein calonnau am byth. Rydym yn falch o gael y cyfle i ddangos ein treftadaeth ddiwylliannol hardd i chi yn ein cerddoriaeth, gwisgoedd, bwyd, dawns a gemau.'***

Roedd y Diwrnod Cyfnewid Diwylliant yn Nhŷ Pentre yn fwy na dathliad yn unig - roedd yn foment o gysylltiad, dealltwriaeth, a balchder. Dangosodd bŵer amrywiaeth diwylliannol wrth greu amgylchedd gofal bywiog a chynhwysol. Yn ei lwyddiant, mae Tŷ Pentre bellach yn cynllunio cyfres o Ddiwrnodau Cyfnewid Diwylliant, gyda digwyddiadau i ddod i gynnwys traddodiadau Cymreig, Gwyddelig a Phwylaidd, gan adlewyrchu treftadaeth amrywiol pobl ar draws y gwasanaeth.

**Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:**

*"Mae llai o angen am ofal a chymorth ac mae uwchgyfeirio angen yn cael ei atal, gan sicrhau bod y deilliannau gorau'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl"*

*"Mae cydnerthedd mewn cymunedau'n cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy fynd ati i gefnogi pobl sydd angen gofal a/neu gymorth, gan gynnwys cynhalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas"*

Dangosir blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag Atal yr ydym wedi'u cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn yr oeddem wedi bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod.

| Blaenoriaethau yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn |
|---|
| Byddwn yn gweithredu Strategaeth Llety Gwasanaethau i Oedolion er mwyn symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu llety gofal ychwanegol ac anabledd dysgu. |
| Dangosir blaenoriaethau sy'n gysylltiedig ag Atal yr ydym wedi'u cyflawni yn y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn yr oeddem wedi bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod. |



## Llety Gofal

**Rydym wedi parhau i ddatblygu Strategaeth Llety Gofal y Cyngor ar gyfer Pobl Hŷn a Phobl Agored i Niwed er mwyn sicrhau ein bod yn creu'r cynnig gwasanaeth cywir sy'n ymateb i alw cynyddol ac anghenion newidiol, gan alluogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cymuned. Nodir bod disgwyliadau pobl hŷn yn newid, gyda mwy o breswylwyr am gadw eu hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain neu fyw mewn llety sy'n darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer eu hanghenion mewn cyfleusterau tebyg i fflatiau, fel tai gofal ychwanegol.**

Yn y cyd-destun hwn, mae'r galw am gyfleusterau cartrefi gofal wedi newid hefyd, ac mae angen rhagor o ofal nyrsio neu ddementia arbenigol ar gyfer y dyfodol. Ym **mis Chwefror 2025**, cytunodd y Cabinet i ddatgomisiynu Cartref Gofal Ferndale House a chyflwyno cyfleuster cartref gofal newydd modern yn ei le yng Nglynrhedynog a fydd yn diwallu anghenion hirdymor y gymuned yn well. Cytunodd hefyd i ddatgomisiynu Cartref Gofal Cae Glas a chytunwyd y gellid diwallu anghenion preswylwyr presennol ac yn y dyfodol yn well mewn cartrefi gofal preswyl eraill, gan gynnwys mewn cyfleusterau dementia arbenigol yn Nhegfan a Pharc Newydd.

Ar hyn o bryd rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu nifer o lety gofal i oedolion ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys:



## DAN Y MYNYDD

Mae gwaith adeiladu wedi parhau ar ein darpariaeth gofal ychwanegol newydd yn y Porth, y disgwylir iddi gael ei chwblhau a'i hagor ym mis Mai 2026. Bydd y datblygiad hwn yn ailddechrau defnyddio hen Gartref Gofal Dan y Mynydd drwy adeiladu datblygiad o'r radd flaenaf a fydd yn cynnwys 60 o fflatiau, gan gynnwys ardal fwyta, salon trin gwallt, ystafell weithgareddau a chanolfan gofal dydd i bobl hŷn ag eiddilwch.



## ABERPENNAR

Gan weithio gyda **Linc Cymru**, rydym wedi parhau i ddatblygu llety gofal newydd yn Aberpennar. Dyma ein datblygiad cyntaf a fydd yn cynnwys 25 o fflatiau gofal ychwanegol, 15 o welyau gofal preswyl (dementia) ac 8 byngalo i bobl hŷn i gyd ar un safle sy'n galluogi math o lety trosiannol (lle y bo'n briodol) gyda'r potensial i symud ymlaen ar y safle wrth i'w hanghenion ddatblygu. Mae'r datblygiad hefyd yn cynnwys mannau bwyta a lolfa gymunedol, gerddi, salon trin gwallt ac ystafell weithgareddau a disgwylir iddo gael ei gwblhau a'i agor yn hydref 2027.

## GLYNRHEDYNOG

Cafodd penderfyniad i ddatblygu Cartref Gofal Dementia Preswyl newydd 32 gwely ar hen safle ffatri Chubb ei **gytuno gan y Cabinet ym mis Medi 2024**. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cytunodd y Cabinet hefyd ym **mis Ionawr 2025** i ohirio'r gwaith o ddatgomisiynu Cartref Gofal Ferndale House nes bod y cartref newydd wedi'i gwblhau. Mae'r gwaith sylfaenol wedi dechrau ac mae'r gwaith tuag at gynllunio yn mynd rhagddo. Disgwylir i'r datblygiad gael ei gwblhau a'i agor yng ngwanwyn 2028.



Yn ogystal â'n rhaglen hirdymor a pharhaus o fuddsoddi mewn darpariaeth llety gofal i bobl hŷn, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn llety gofal modern i bobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys:

## BRONLLWYN

Mae gwaith wedi parhau ar ddatblygu llety gofal arbenigol newydd ar gyfer oedolion a phobl hŷn ag anableddau, ar **safle hen Gartref Gofal Preswyl Bronllwyn yng Ngelli**. Disgwylir i'r datblygiad gael ei gwblhau a'i agor ym mis Gorffennaf 2026.

Mae'r contractwr wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r lleoliadau addysg feithrin a chynradd gerllaw. Mae wedi noddi rhaglen 'Bumbles of Honeywood', sy'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd pobl ifainc gyda Chylch Meithrin Bronllwyn, ac mae hefyd wedi darparu tabardau llachar i ddisgyblion meithrin a chynradd sy'n mynd i'r ysgolion. Yn ystod y rhaglen, bydd y plant yn dysgu Sgiliau Bywyd Allweddol, yn datblygu Llais y Disgybl, yn archwilio beth mae Menter yn ei olygu ac yn dysgu am Lythrennedd Ariannol yn ogystal â'u cynorthwyo i ddod yn Ddinasyddion Byd-eang Amgylcheddol Gyfrifol.

## GARTH OLWG

Rydym yn datblygu opsiynau cynllunio ar gyfer cynllun byw â chymorth newydd i bobl ag anabledd dysgu ym Mhentre'r Eglwys. Mae hen Gartref Gofal Garth Olwg wedi'i ddymchwel a chytunwyd ar gynlluniau ar gyfer 22 o fflatiau llety â chymorth a chanolfan ddydd i bobl ag anabledd dysgu. Mae'r cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac nid yw partneriaid wedi'u nodi eto.

## Ailalluogi

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau i atal cynnydd mewn uwchgyfeirio angen neu er mwyn galluogi adferiad ac annibyniaeth. Yn 2024/25, gwnaethom gwblhau 1,038 o becynnau ailalluogi, ac o'r rhain roedd 1,017 wedi lleihau, cynnal neu liniaru'r angen am gymorth (98%).

Ym mis Chwefror 2025, gwnaeth Jeremy Miles AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, ymweld â Rachel, un o'r trigolion lleol a gafodd gymorth eisoes gan Dîm Ailalluogi'r Cyngor, yn ei chartref. Roedd yr ymweliad hwn yn dathlu cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd i gefnogi'r her 50 diwrnod, wedi'i anelu'n benodol at wella gwasanaethau ailalluogi.

### Astudiaeth Achos: Sut mae ailalluogi yn cynorthwyo pobl i adennill annibyniaeth - stori Rachel

Mae Rachel, a ddioddefodd strôc yn 2023, wedi gwneud cynnydd rhyfeddol gyda chymorth y tîm ailalluogi. Er y dywedwyd wrthi i ddechrau na fyddai byth yn cerdded eto, mae Rachel wedi adennill ei gallu i gerdded, sefyll, a hyd yn oed cyflawni tasgau dyddiol yn annibynnol. Mae ei thaith ysbrydoledig wedi'i chynnwys yn flaenorol mewn **fideo** gan Gofalwn Cymru, sy'n dangos effaith sylweddol gwasanaethau ailalluogi ar adferiad Rachel.

Yn ystod 2024/25, darparodd ein gwasanaethau mewnol Cymorth yn y Cartref 73,803 awr o gymorth gofal cartref uniongyrchol i 1,383 o bobl, gan eu galluogi a'u cefnogi i aros mor annibynnol â phosibl. Effeithiwyd ar y ffigurau hyn gan drosglwyddo gofal cartref hirdymor i'r sector annibynnol ym mis Hydref 2024. Serch hynny, cynyddodd yr oriau gwasanaeth uniongyrchol ar gyfer gofal tymor-byr i 44,576 dros y flwyddyn, gyda 57% o bobl yn annibynnol ar ddiwedd ein cymorth.

## Addasu ac Offer Cymunedol

Cwblhaodd y Garfan Addasu ac Offer Cymunedol 1,517 o asesiadau yn ystod 2024/25, gyda 660 o asesiadau codi a chario ychwanegol wedi'u cwblhau, gan leihau risg a chynorthwyo staff gofal i ddefnyddio offer yn effeithiol ac yn ddiogel i gadw pobl yn byw gartref. Yn ogystal, er mwyn cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth am gyfnod hirach gartref, darparodd Vision Products 5,975 o ddarnau o offer i drigolion Rhondda Cynon Taf a chasglu 6,726 o eitemau o offer i'w hailgylchu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd 832 o weithiau addasu yng nghartrefi pobl i gynorthwyo pobl i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac yn annibynnol, a chafodd 437 o'r rhain eu cyllido drwy'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl.

### Astudiaeth Achos: Addasu ac Offer Cymunedol

Roedd gan Mr J fynediad cyfyngedig i'r gymuned oherwydd ei weithrediad a'i symudedd llai a oedd yn cynyddu'r anhawster o ran cael mynediad at risiau allanol ei gartref yn ddiogel ac yn annibynnol. Yn yr un modd, roedd yn anodd iddo ddringo'r grisiau mewnol ac o ganlyniad roedd wedi bod yn cysgu ar y soffa ar y llawr gwaelod ers misoedd lawer.

Cwblhawyd asesiad therapi galwedigaethol ac argymhellwyd lifft risiau allanol i alluogi mynediad diogel i'r gymuned ac oddi yno drwy Grant Cyfleusterau i'r Anabl. Yn ogystal, argymhellwyd lifft risiau fewnol gyda rheilen gafael ar frig y grisiau er mwyn cynnig sefydlogrwydd wrth godi i sefyll.

Bydd yr addasiadau hyn yn diwallu anghenion presennol a hirdymor Mr J, gan leihau'r risg o gwympiadau a hyrwyddo annibyniaeth o amgylch y cartref ac wrth gael mynediad i'r gymuned.

Cwblhaodd y Garfan Synhwyraidd 332 o asesiadau yn ystod 2024/25, gydag 83 o Dystysgrifau Amhariad ar y Golwg yn cael eu cofrestru. Cynorthwyodd y Garfan 186 o bobl drwy raglen adsefydlu i gyflawni annibyniaeth mewn tasg a nodwyd.

### Astudiaeth Achos: Carfan Synhwyraidd

Roedd Mr C wedi gwisgo dau gymorth clyw am y 5 mlynedd diwethaf ac roedd hefyd wedi profi tinitws yn ei glust dde. Nid oedd Mr C yn gallu clywed y teledu er bod y sain ar lefel uchel, ac roedd hyn yn achosi problemau gartref gan fod aelodau o'r teulu yn cael trafferth ymdopi â lefel sain y teledu. Cwblhawyd asesiad amhariad ar y clyw gan y gweithiwr synhwyraidd, a darparwyd Penset Sonumaxx PR, gan alluogi Mr C i glywed y teledu ar lefel sain a oedd yn fwy cyfforddus i holl aelodau'r teulu. Dywedodd Mr C hefyd nad oedd yn gallu clywed pobl yn curo ar y drws ffrynt pan oedd yn y gegin ac ar ôl cynnal asesiad darparwyd cloch drws gludadwy addas iddo. Roedd yr offer synhwyraidd a ddarparwyd yn gwella annibyniaeth Mr C.

## Seibiant

Mae darpariaeth seibiant yn wasanaeth hanfodol i deuluoedd sy'n gofalu ac yn cynorthwyo aelod o'r teulu gartref. Mae hyn yn galluogi iddynt gael seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu a magu nerth newydd gan wybod bod eu hanwylyd yn cael cymorth mewn amgylchedd diogel a gofalgar sy'n hyrwyddo profiad a chanlyniad cadarnhaol.

### Astudiaeth Achos: Seibiant

Mae M yn 73 oed; mae'n byw gyda dementia yn y gymuned gyda chymorth gan becyn gofal a theulu. Mae M yn byw gartref gyda'i gŵr, B yw prif gynhaliwr M. Roedd B yn cael trafferth gyda'i anghenion iechyd ei hun a daeth y rôl prif gynhaliwr yn fwyfwy heriol i B; gyda dirywiad gwybyddol M ac roedd angen lefelau uwch o oruchwyliaeth a chymorth arni. Roedd M wedi mynd i'w chragen; yn cael trafferth cysgu yn y nos ac roedd hyn hefyd yn cael effaith ar B a oedd yn gynyddol flinedig.

Nododd y teulu yr effaith yr oedd gofalu am M yn amser llawn yn ei chael ar B ac aethant at y Gwasanaethau i Oedolion i ofyn am ofal seibiant. Dechreuodd rheolwr gofal M a'r teulu'r broses o gael mynediad at seibiant i M a B gyda rhywfaint o bryder ac amharodrwydd.

Cyn ei harhosiad seibiant, cwblhawyd asesiad dydd i ddarparu gwell dealltwriaeth o anghenion gofal a chymorth M a sut y gellid cynnal ei chymorth a'i hannibyniaeth yn amgylchedd anghyfarwydd y cartref gofal. Treuliodd M y dydd yn y Cartref Gofal cyn ei arhosiad seibiant er mwyn cynllunio ar gyfer ei hanghenion gofal. Yn ystod ei harhosiad seibiant, ymgysylltodd M â phreswylwyr eraill yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnwyd gan y Cartref. Roedd yn ymddangos bod hyn yn gwella llesiant M ac arweiniodd at orffwys o ansawdd gwell yn y nos.

Daeth meibion M i ymweld â hi yn ystod ei harhosiad seibiant ac roeddent wedi'u synnu o weld M yn rhyngweithio â phreswylwyr eraill a staff, gan ddweud y byddai'n eistedd gartref heb ymgysylltu. Roeddent yn gallu treulio amser o ansawdd gydag M heb y pryder ynghylch peryglu ei diogelwch a'i llesiant. Pan gawsant wybod bod M yn cysgu, yn bwyta ac yn yfed yn dda ac nad oedd yn mynegi unrhyw ofid am fod i ffwrdd o'i chartref mynegodd ei meibion deimlad o ryddhad a sicrwydd.

Roedd profiad seibiant cyntaf M ym mis Chwefror 2025 yn un cadarnhaol iddi hi, ei chynhaliwr di-dâl a'i theulu. Dywedodd ei mab iddynt fynd adref a dweud wrth eu tad, '*mae mam fel person gwahanol*'.

## Cefnogi Cyflogaeth Gynhwysol

**Vision Products** yw'r busnes a gefnogir gan y Cyngor ac mae'n Arweinydd Anabledd, sy'n darparu ystod o wasanaethau amrywiol. Mae'n hyrwyddo cynhwysiant drwy deilwra cyfleoedd i bobl ac ar hyn o bryd mae'n cyflogi, yn hyfforddi ac yn cefnogi 90 o unigolion ag amrywiaeth o anableddau. Mae nifer o'r bobl hyn yn cael eu cefnogi drwy gyfleoedd cyflogaeth, hyfforddeiaethau, gwirfoddoli a phrofiad gwaith.

### Astudiaeth Achos: Cefnogi cyflogaeth gynhwysol

Wedi'i gyfeirio at Vision Products yn 2014 gan Elite, ymunodd D â rhaglen hyfforddeiaeth gyda phrofiad gwaith cyfyngedig a heriau sy'n gysylltiedig â dyslecsia a dyspracsia. Drwy dreial gwaith cynhwysfawr, arsylwodd Vision Products D, cawsant sgyrsiau manwl dag ef am ei gryfderau a'i ddyheadau, a gofyn sut y gallent ei gefnogi orau i gyflawni ei botensial llawn. Drwy'r rhagweithiol hwn, galluogwyd i Vision Products ddatblygu cynllun wedi'i deilwra yn benodol i ddiwallu anghenion a nodau D.

Roedd Vision Products yn darparu amgylchedd wedi'i deilwra'n unigryw i rymuso D, gan gynnig nid yn unig cyflogaeth ond twf gwirioneddol, gan alluogi D i ffynnu. Ar ôl cwblhau'r rhaglen hyfforddeiaeth, gwnaeth D gais llwyddiannus am swydd ran-amser barhaol fel Gweithredwr Cynhyrchu PVCu yn Vision Products - carreg filltir arwyddocaol yn ei yrfa.

Ni ddaeth stori D i ben gyda'i ddatblygiad ei hun. Dros amser, camodd i rôl fentora, gan hyfforddi cydweithwyr newydd a chefnogi eu twf. Mae ei ymdrechion yn adlewyrchu ei gynnydd personol a phroffesiynol, yn ogystal â'i ymroddiad i feithrin cydweithredu a meithrin sgiliau ymhlith eraill.

Mae taith D yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae arferion cynhwysol Vision Products yn ei chael nid yn unig ar unigolion ond ar y sefydliad yn ei gyfanrwydd. Mae D yn aelod amhrisiadwy o dîm Vision Products. Er y gall y daith gyda phobl ag anawsterau dysgu neu anableddau eraill gymryd amser, mae profiad D yn profi bod y deilliannau'n werth chweil. Mae ei lwyddiant yn dyst i bwysigrwydd buddsoddi mewn pobl, meithrin eu twf, a chroesawu'r cryfderau unigryw y maent yn eu cynnig i'r gweithle.

VISION PRODUCTS
Y DEWIS CLIR

## Plant sy'n Derbyn Gofal

**Mae nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf wedi gostwng ond mae'n parhau i fod yn uchel yn y gymhariaeth genedlaethol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd gennym 611 o blant sy'n derbyn gofal o'i gymharu â 637 yn 2024, 624 yn 2023, 655 yn 2022, a 717 yn 2020. Mae hyn yn dangos tuedd gadarnhaol**

Fodd bynnag, mae hwn yn faes busnes anodd ac weithiau'n anrhagweladwy i'r Cyngor, ac yn ogystal â thlodi, cam-drin domestig, sylweddau ac iechyd meddwl gwael rhieni, mae'r ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y gyfradd y mae plant yn derbyn gofal ar hyn o bryd yn cynnwys trosglwyddo plant digwmni sy'n ceisio lloches ac yn yr effaith ar blant a theuluoedd lle ceir camfanteisio.

Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd fel mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel iddynt sy'n derbyn gofal. Fel rhan o'r cymorth hwn, rydym wedi parhau i gyflawni yn erbyn y pedwar maes datblygu sydd wedi'u nodi yn ein

**Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal 2022/25** sef:

**1**

### Datblygu'r Garfan Cyn Geni: MAGU

Rydym wedi datblygu gwell cymorth cyn geni i'n teuluoedd mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd eu hunain â phrofiad o fod mewn gofal neu sydd eisoes wedi cael plentyn arall wedi'i dynnu o'u gofal, drwy ein Carfan Magu. Cwblhawyd gwerthusiad ysgrifenedig gan gynnwys y camau nesaf ar gyfer y Gwasanaeth ym mis Mehefin 2024 a chanfu:

- Bu gostyngiad o 22% yn y plant dan 1 oed sy'n derbyn gofal
- Mae dibyniaeth ar leoliadau rhieni a phlant wedi gostwng 10%
- Gostyngiad mewn lleoliadau rhiant a phlentyn sy'n gorffen gyda gwahanu rhiant a phlentyn. Dim ond 1 o'r 9 lleoliad (11%) a gefnogwyd gan Magu a orffennodd gyda gwahanu. Mae cyfraddau blaenorol wedi bod rhwng 30 a 40% o wahanu.
- Mae sawl deilliant cadarnhaol iawn wedi'u cyflawni ar achosion lle mae Magu wedi bod yn darparu cymorth. Ceir enghreifftiau o fabanod a anwyd, lle bu risg uchel o asesiad negyddol ac yn y pen draw posibilrwydd o wahanu oddi wrth riant, sydd wedi llwyddo i aros yng ngofal un neu'r ddau o'u rhieni.

Darparwyd **adroddiad cynnydd** i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2025.

## 2 Datblygu cymorth i Gynhalwyr sy'n Berthnasau

Yn 2024/25, gwnaethom greu Garfan Cymorth Cynhalwyr sy'n Berthnasau a Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig newydd i sicrhau cymorth teg i bob cynhaliwr. Ar hyn o bryd mae data'n dangos cynnydd yn nifer y Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig o 323 ym mis Mawrth 2024 i 333 ym mis Mawrth 2025. Byddwn yn monitro effaith cynllun peilot sydd â'r nod o wneud Gwarcheidiaeth Arbennig yn gyfle cyfartal i bawb, yn enwedig y rhai sy'n teimlo bod eu cyllid personol yn rhwystr.

Rydym wedi parhau i gomisiynu **Kinship Cymru** i gynnig gwasanaeth **Kinship Connected** i wella deilliannau i warcheidwaid arbennig a chynhalwyr eraill sy'n berthnasau. Mae Kinship Connected yn helpu cynhalwyr sy'n berthnasau i ddatblygu rhwydweithiau cefnogol hirdymor sy'n arwain at amgylchedd mwy sefydlog a chefnogol lle gall y plant yn eu gofal ffynnu. Mae'r cymorth yn cynnwys cymorth un i un, cymorth gan gymheiriaid, cyngor, cymorth i gael mynediad at grantiau a gweithdai ar-lein am ddim i sicrhau bod y cynhalwyr sy'n berthnasau yn cael yr help sydd ei angen arnynt i gefnogi'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

## 3 Datblygu ein Model Ymarfer

Rydym wedi gweithredu model newydd o ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a staff sy'n gweithio gyda theuluoedd sydd wedi cael eu hatgyfeirio i Wasanaethau i Blant. Bydd y model newydd yn cryfhau ymarfer, gan arwain at leihau mynediad i ofal yn ddiogel, darparu ymyrraeth amserol ac ymatebol i deuluoedd i'w cadw gyda'i gilydd, isgyfeirio angen a risg, diogelu plant a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel.

Tair conglfaen allweddol ein hymarfer yw Perthnasoedd, Cydweithredu a bod yn Ystyriol o Drawma.

Mae rhaglen hyfforddi wedi'i datblygu ar gyfer ymarferwyr ac mae'n cael ei chyflwyno ar hyn o bryd.




4

## Gwella Gwaith Ailuno

Nid yw pob plentyn sydd angen gofal yn gallu mynd yn ôl i ofal ei rieni biolegol, neu ni ddylai ddychwelyd adref at ei rieni biolegol. Fodd bynnag, mae modd i lawer ddychwelyd yn llwyddiannus, gyda'r cymorth cywir. Yn unol â'n Strategaeth Ailuno ddiwygiedig, rydym wedi parhau i ddarparu adnoddau i weithio gyda rhieni pan fyddant wedi cael eu gwahanu oddi wrth blant er mwyn, lle y bo'n bosibl, ailuno plant gartref sydd wedi treulio peth amser yn derbyn gofal gan y Cyngor. Yn 2024/25, o'r 149 o blant a adawodd ofal, cafodd 79 o blant eu dychwelyd adref (53%). Mae hyn yn gadarnhaol ac yn fwy nag yn 2023/24, pan o'r 119 o adawodd ofal, cafodd 50 eu dychwelyd adref (42%).

Mae'r Strategaeth Atal Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei gweithredu, ac mae rhai canlyniadau cadarnhaol wedi'u nodi uchod, ond mae gennym uchelgais i weld cynnydd pellach yn nifer y teuluoedd sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n parhau i fod yn uned deuluol. Cyflwynwyd **adroddiad cynnydd** i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Medi 2024.

## Fy Llais Fy Adolygiad

Yn 2024/25, mae rhai datblygiadau allweddol yn y Garfan Adolygu wedi cynnwys diwygio'r adolygiad o drefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, Fy Llais Fy Adolygiad a sicrhau ansawdd.

Treialwyd yr adolygiad diwygiedig o drefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio BETA (WCCIS) ac aeth yn fyw ym mis Medi 2024. Mae'r ddogfen yn canolbwyntio'n allweddol ar lais, hawliau a phrofiad bywyd y plentyn ac adolygu'r cofnod deilliannau yn y cynllun gofal a chymorth. Mae'r ddogfen yn gyflymach i'w llenwi ac yn benthyg ei hun i arddull ysgrifennu cryno. Mae data a gasglwyd o'r ddogfen adolygu trefniadau ar gael yn electronig drwy Power BI. Mae hyn yn helpu'n fawr gyda chasglu data a dadansoddiad thematig cyflymach o'r data sy'n cael eu cofnodi yn ein hadolygiadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Drwy ein gwaith sicrhau ansawdd, rydym wedi nodi meysydd i'w gwella sydd wedi cynnwys, yn ogystal â chyfranogiad, cofnodi cyfathrebu â Gwarcheidwaid ac adolygiadau canol cyfnod.

Mae'r ddogfen ymgynghori Fy Llais Fy Adolygiad ar gyfer pob plentyn a'i adolygiad yn parhau i gael ei hanfon at bob asiantaeth cyn adolygiad plant sy'n derbyn gofal. Nod hyn yw annog y rhai a allai fod â pherthynas waith agos â'r plentyn fel staff addysgu, swyddogion adolygu annibynnol, staff preswyl, gweithwyr maethu a chymdeithasol i gefnogi'r plentyn i gwblhau'r ymgynghoriad os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae cod QR hefyd wedi'i gynnwys yn yr ohebiaeth e-bost ar gyfer mynediad cyflym i'r ddogfen. Mae fersiwn Gymraeg ar gael hefyd. Mae fersiwn hawdd ei deall wedi bod yn cael ei datblygu; ac er bod peth oedi wedi'i brofi mewn perthynas â diogelwch o fewn yr Ap Widgit, mae hyn bellach wedi'i ddatrys, a chytunir y gall y gwaith hwn symud ymlaen i sicrhau bod Fy Llais Fy Adolygiad yn gynhwysol i bob plentyn.

Mae ymgyngoriadau wedi parhau yn ystod y flwyddyn gyda phlant, staff preswyl ac ymarferwyr. Mae ffyrdd eraill fel y cyfryngau cymdeithasol, bore coffi i gynhalwyr maeth, sesiynau galw heibio i bobl ifainc a chysylltu â Chynhaliwr Maeth Arloesol i helpu i godi ymwybyddiaeth o Fy Llais Fy Adolygiad ymhlith rhai o'r syniadau sydd wedi'u harchwilio. Y gobaith yw y bydd y llwybrau hyn o godi ymwybyddiaeth o Fy Llais Fy Adolygiad yn annog plant a phobl ifainc a/neu eu rhieni a'u cynhalwyr a'u hymarferwyr i'w cefnogi i lenwi'r Ffurflen Fy Llais Fy Adolygiad a mynd i adolygiadau plant sy'n derbyn gofal.

Gellir gweld effaith y gwaith hwn yn y niferoedd cynyddol o blant a lenwodd y ddogfen Fy Llais Fy Adolygiad, 42 yn chwarter 1 2024/25 o'i gymharu ag 83 yn chwarter 2 2024/25. Mae cyfanswm o 250 o blant wedi llenwi eu dogfen ymgynghori eu hunain ar gyfer eu hadolygiad, sef 20% o'r adolygiadau plant sy'n derbyn gofal (1227) a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer plant dros 5 oed. Mae datblygiad Power BI wedi helpu'n fawr gyda'r gwaith o goladu data yn ystod 2024/25, a bydd hyn yn ein galluogi i ddeall effaith ein gwaith yn y dyfodol.

## Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth i deuluoedd mor gynnar â phosibl er mwyn cynyddu cydnerthedd ac atal yr angen am wasanaethau statudol. Yn 2024/25, gwnaethom ymgysylltu â chyfanswm o 1,175 o deuluoedd. Roedd gan 88% o'r teuluoedd hyn (1,034) well cydnerthedd ar ôl cwblhau eu gwaith gyda'n Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Mae hyn ychydig yn fwy nag yn 2023/24 pan nododd 85% (1,195) fod ganddynt well cydnerthedd.

### Astudiaeth Achos: Adborth gan Deulu ar y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

*“Mae teuluoedd gwydn wedi dangos i ni bod cymorth anfeirniadol ar gael i deuluoedd sydd, fel ni, yn cael trafferth gydag ymddygiad plant a hefyd ein hymatebion i'r ymddygiad hwnnw, a sut mae rhagor o gymorth ar gael.”*

*“Heb y cyfle hwn byddwn yn dal i fod yn yr un sefyllfa, hoffwn i fod wedi gwybod amdano yn gynt, mae wedi newid ein bywydau.”*

*“Diolch am eich cymorth - rwy'n credu pe bai cyllid yn cael ei gymryd oddi wrthych chi byddai'n niweidiol i deuluoedd yn RhCT. Mae'r cymorth a gefais gennych wedi bod yn gadarnhaol iawn.”*

*“Diolch am eich holl help, mae ein profiad o'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi bod yn ardderchog. Mae fy mab a minnau wedi cael budd o'r cymorth.”*

*“Mae'r holl staff cymorth wedi bod yn hawdd siarad â nhw ac roeddwn i bob amser yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnaf a byth yn cael fy marnu.”*

*“Mae wedi bod yn braf cael rhywun i siarad ag ef a bod yn agored a thrafod yr heriau a strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad. Rwy'n argymell y gwasanaeth yn fawr, y ddwy wraig a ddaeth i ymweld â ni ein hunain, yn gan wneud i ni i gyd deimlo'n ddiogel i allu mynegi ein pryderon, nid oeddent yn feirniadol a wnaeth i ni deimlo'n hapus i drafod unrhyw beth gyda'r ddwy. Rwy'n teimlo fy mod wedi cael cymorth ac wedi chwalu rhwystr gyda gwasanaethau. Mae'r plant yn llawer mwy mynegiannol o ran eu hemosiynau a'u teimladau, ac mae ymddygiad yn gwella sy'n ei wneud yn dŷ hapusach.”*

*“Mae'n wych gwybod hefyd y gallaf ddod yn ôl i weithio gyda chi eto i gael rhywun i sefyll wrth fy ochr pan fydd pethau'n anodd, ac wedi rhoi mwy o hyder i mi. Diolch am bopeth mae wedi bod yn wych.”*

**Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:**

*"Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy cwbl integredig o ansawdd uchel i bobl"*

*"Mae pobl yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r broses o gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal"*

Dangosir y blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â Phartneriaeth ac Integreiddio yr ydym wedi'u cyflawni yn y gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn yr oeddem yn bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod.

| Blaenoriaethau yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn |
| --- |
| Byddwn yn parhau i weithio'n gadarnhaol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithredu model iechyd cymunedol effeithiol ac integredig i ddiwallu anghenion y gymuned a lleihau'r pwysau ar ysbytai acíwt. |
| Byddwn yn ailgynllunio ein Gwasanaeth GCCh ochr yn ochr â rhanddeiliaid i fod yn wasanaeth cynaliadwy gyda bwriad atal cryf wrth y drws ffrynt. |

Rydym yn gweithredu mewn gofod rhyng-gysylltiedig iawn ac wedi parhau i gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth ystyrlon gydag ystod eang o sefydliadau a phobl ar lefel unigol a strategol. Yn ystod y flwyddyn, mae Gwasanaethau i Oedolion a Phlant wedi parhau i chwarae rhan sylweddol yn y byrddau partneriaeth rhanbarthol a grwpiau partneriaeth, gan ddod ag arweinyddiaeth a chraffu effeithiol iddynt.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel ac ymatebol. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ar lefel unigol a strategol i wella gwasanaethau ac i gyflawni mesurau effeithlonrwydd.

## Llwybrau Gofal

**O fis Hydref 2024, adolygwyd y contract fframwaith gofal cartref a'r fanyleb gwasanaeth yn llawn a symleiddiwyd gofynion rhyddhau o'r ysbyty i adlewyrchu dull gartref yn gyntaf. Roedd ein contract blaenorol yn gofyn am asesiad o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac i'r Gwasanaethau i Oedolion gwblhau cynllun gofal a chymorth cyn i'r gwasanaeth gofal cartref hirdymor ddechrau. Roedd hyn yn anochel yn creu oedi y tu hwnt i'r amserlen 48 awr ar gyfer rhyddhau Llwybr 1 waeth beth yw capasiti darparwr gofal cartref.**

Mae ein contract newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Trosglwyddo Gofal yn Electronig (EToC) fel asesiad cymesur a dibynadwy i'n darparwyr a gomisiynir i gefnogi'r rhyddhau yn uniongyrchol ar ôl ei dderbyn. Mae Gwasanaethau i Oedolion yn ymweld â'r person o fewn 72 awr i'r rhyddhau er mwyn sicrhau bod yr asesiad o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi'i gwblhau, ond mae hyn bellach yn cael ei gyflawni yng nghartref y person ei hun. Er bod trosglwyddo'r contract wedi cael effaith negyddol ar berfformiad gofal cartref i ddechrau wrth i'n darparwyr wedi'u comisiynu ganolbwyntio ar drosglwyddo eu defnyddwyr gwasanaethau a'u staff yn ddiogel, ers mis Tachwedd 2024 mae'r capasiti wedi bod yn gwella'n raddol ac mae wedi golygu gostyngiad yn yr oedi wrth asesu ar gyfer rhyddhau sydd wedi cyfrannu at y gostyngiad yn hyd arhosiad rhywun yn yr ysbyty.

Ym mis Ebrill 2024, y nifer cyfartalog o ddiwrnodau o oedi oedd 22.6 diwrnod ar gyfer 177 o unigolion; erbyn mis Mawrth 2025 roedd hyn wedi gostwng i 20.8 diwrnod ar gyfer 152 o unigolion. Fodd bynnag, mae data Iechyd o amgylch Oedi yn Achos Llwybrau Gofal wedi dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n profi oedi:

- wrth aros i weithiwr cymdeithasol gael ei ddyrannu (43 yn 2024/25 o'i gymharu â 34 yn 2023/24)
- dechrau pecyn cartref gofal newydd (279 yn 2024/25 o'i gymharu â 170 yn 2023/24)
- argaeledd lleoliadau cartrefi gofal, preswyl (50 yn 2024/25 o'i gymharu â 39 yn 2023/24) a nyrsio (108 yn 2023/24 o'i gymharu â 58 yn 2023/24).

Mae'r cyflawniad hwn yn adlewyrchu cymhlethdod cynyddol achosion a'r galw mawr. Bydd gwaith yn parhau gydag Iechyd i wella llwybrau gofal a lleihau'r oedi hyn.

Mae'r Garfan Cadw'n Iach Gartref, sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl, yn dîm o therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol sy'n cwblhau asesiadau gyda phobl mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac Unedau Penderfyniadau Clinigol. Y prif nod yw atal derbyniadau diangen i ward a galluogi pobl i ddychwelyd adref yn amserol gyda gwasanaeth gofal canolraddol os oes angen i'w cynorthwyo i adennill eu hannibyniaeth mewn tasgau bywyd bob dydd. Mae'r Tîm Cadw'n Iach Gartref yn gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn hyd at 20:00 bob dydd.


## Astudiaeth Achos: Tîm Cadw'n Iach Gartref

Daethpwyd â Mrs S mewn ambiwlans i Ysbyty Brenhinol Morgannwg a gwnaed atgyfeiriad i'r Tîm Cadw'n Iach Gartref am asesiad i nodi ei lefel bresennol o angen a pha gymorth a allai fod ei angen arni i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel i'w chartref ei hun. Ar ôl ei hasesiad, cafodd Mrs S ei rhyddhau ac aeth adref gyda phecyn gofal canolraddol - gan gyflawni'r deilliannau canlynol:

- Mae asesiad GCCh gan y Tîm Cadw'n Iach Gartref a'i rhyddhau i wasanaeth gofal canolraddol yn ei chartref ei hun yn atal defnydd diangen o wely ysbyty.
- Llai o risg o haint a gafwyd yn yr ysbyty.
- Llai o botensial o gael ei datgyflyru gydag arhosiad hir yn yr ysbyty.
- Cafodd ei galluogi i gynnal annibyniaeth i weithredu yn amgylchedd ei chartref ei hun.

## System Gofal Cymunedol Integredig

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud i weithredu ymateb cymunedol iechyd a gofal cymdeithasol brys er ei fod yn arafach nag yr oeddem wedi'i gynllunio. Nid oes unrhyw anghytundeb sylfaenol ynghylch y model system gofal cymunedol integredig ond mae digwyddiadau a chapasiti partneriaid i ymateb i flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd wedi atal unrhyw gynnydd sylweddol. Mae timau a gwasanaethau cymunedol integredig i gefnogi pobl hŷn yn parhau i fod yn nod rhanbarthol a rennir ac mae gwaith pellach i sefydlu achos busnes ar y cyd a chytundeb cyfreithiol manylach cyn y newid hwn wedi'i gynllunio yn 2025/26.



## Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth

Daeth y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru a'r cod ymarfer statudol i rym ym mis Medi 2024, ac rydym yn gweithio'n gadarnhaol tuag at gydymffurfio yn erbyn saith egwyddor a deg safon y fframwaith.

Buddsoddodd Gwasanaethau i Oedolion mewn contractau hirdymor gyda darparwyr gwasanaethau allweddol i ddatblygu partneriaethau effeithiol wrth gyflawni ein dyletswyddau i'n defnyddwyr gwasanaethau. Yn allweddol ymhlith y rheini mae'r darparwyr byw â chymorth a gofal cartref ond ein dull comisiynu yw meithrin partneriaethau a pherfformiad effeithiol gyda'r amrywiaeth llawn o wasanaethau cartrefi gofal, taliadau uniongyrchol, eiriolaeth, cymorth cymunedol, microfentrau a gofal a thrwsio.

### Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Diogel Gartref

Mae gan y Gwasanaethau i Oedolion Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gofal a Thrwsio ar gyfer darparu Gwasanaeth Diogel Gartref i gefnogi perchnogion tai a thenantiaid preifat i gael mân gymhorthion wedi'u darparu, fel canllawiau cydio, codwyr cadeiriau a seddi toiled wedi'u codi, cyn gynted â phosibl heb yr angen am asesiad llawn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yn 2024/25, derbyniodd y Gwasanaeth Diogel Gartref 1,499 o atgyfeiriadau, y derbyniwyd 1,060 ohonynt yn uniongyrchol gan staff gofal cymdeithasol a chafodd gweddill yr atgyfeiriadau eu cwmpasu gan Aseswyr Dibynadwy Gofal a Thrwsio drwy atgyfeiriad uniongyrchol gan SPA. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg boddhad yn ystod y cyfnod, dywedodd 98% fod eu problem wedi'i datrys ac roedd 98% yn teimlo bod y gwasanaeth wedi gwella eu hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd.

## Statws Oed-gyfeillgar

Ym mis Ebrill 2024, cafodd y Cyngor ei gydnabod fel **cymuned oed-gyfeillgar** ar ôl dod yn aelod o Rwydwaith Byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Dinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar. Mae'r rhwydwaith yn fudiad byd-eang o gymunedau, dinasoedd, a lefelau is-genedlaethol eraill o lywodraeth sy'n ymdrechu i ddiwallu anghenion trigolion hŷn yn well. Gwnaethom hyrwyddo a dathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn a oedd eleni yn canolbwyntio ar Heneiddio gydag Urddas.



## Prosiectau Dementia

Yn dilyn llwyddiant cynllun peilot y Gronfa Rhaglen Atal Dementia Cymunedol, rhyddhawyd cyllid ychwanegol yn 2024/25 i grwpiau a sefydliadau ledled rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Roedd y gronfa ar gael i adeiladu ymwybyddiaeth o anghenion pobl â dementia a'u cynhalwyr, a'r capasiti mewn hyfforddiant Cyfeillion Dementia. Cefnogodd grwpiau cymunedol i ymgymryd â gweithgareddau cymunedol ar raddfa fach sy'n cefnogi gweithgareddau lleihau'r risg o ddementia yn unol â chamau 1 i 3 o Gynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia.

Yn 2024/25, cynhaliodd y Cydlynydd Pobl Hŷn 9 sesiwn wybodaeth Cyfeillion Dementia ar gyfer sefydliadau a grwpiau a ariennir, gan greu 118 o Gyfeillion Dementia newydd ychwanegol. Ochr yn ochr â hyn, roedd llawer o'r sefydliadau a'r grwpiau a ariennir yn cael mynediad at sesiynau Cyfeillion Dementia amgen neu ddigidol, gan greu 348 o Gyfeillion Dementia eraill.

Oherwydd diffyg hyfforddiant ar gyfer Llysgenhadon Cyfeillion Dementia posibl, mae 43 o unigolion o'r grwpiau a'r sefydliadau a ariennir ledled Cwm Taf Morgannwg wedi ymrwymo i gwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn ymgymryd â'r rôl hon.

Darparwyd cyllid pellach i gefnogi Gweithgarwch Oed-gyfeillgar hefyd a chefnogodd gyfanswm o 18 o grwpiau cymunedol gyda chyllid o hyd at £2,000 fesul grŵp.

Dangosir crynodeb o'r deilliannau wedi'u monitro ynghyd â chyfanswm nifer y buddiolwyr a gyflawnwyd drwy'r cyllid a ddarparwyd yn 2024/25 isod:

- Nifer y buddiolwyr 50 oed a throsodd: **1309**
- Y nifer a nododd gynnydd mewn cysylltiadau cymdeithasol: **1062**
- Y nifer a nododd well Iechyd Meddwl/Llesiant: **751**
- Y nifer a nododd eu bod yn teimlo'n llai ynysig: **983**
- Y nifer a nododd eu bod yn fwy egnïol: **729**
- Y nifer a nododd fwy o ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth: **718**

## Ymateb i Newid Hinsawdd a Chefnogi Bioamrywiaeth

Rydym yn cydnabod y rôl sydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth leihau ôl troed carbon y Cyngor, cefnogi bioamrywiaeth leol ac addasu i'r risgiau a achosir gan Newid Hinsawdd. Er enghraifft, mae ein holl ddatblygiadau llety newydd yn defnyddio dulliau adeiladu modern ac yn anelu at wneud y mwyaf o ofod gardd awyr agored ar gyfer iechyd, llesiant a buddiannau amgylcheddol y preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Mae ystyriaethau ar gyfer lleihau carbon a mynd i'r afael â newid hinsawdd yn flaenllaw yn ein datblygiadau.

### Astudiaeth Achos: Bioamrywiaeth yn natblygiad cartref gofal newydd Bronllwyn

Bydd gan y datblygiad newydd hwn y nodweddion isod yn ogystal â pheidio â chael unrhyw ddarpariaeth nwy:

- Gerddi glaw wedi'u lleoli ar y ffin â'r ysgol, sy'n rhaeadru i lawr llethr naturiol y safle. Bydd yr holl erddi glaw yn cynnwys planhigion sy'n gallu goddef sychder a dŵr.
- Bydd pantiau sydd wedi'u lleoli yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y safle yn cael eu plannu gyda hadau blodau gwyllt a choed wedi'u plannu ar yr ochr ac ar hyd y pant, i wneud iawn am gael gwared ar y coed bedw presennol.
- Bydd gwaith plannu arall yn ardal y clos a'r cyffiniau yn cynnwys gwrych brodorol, dôl a lawntiau wedi'u harddu â blodau gwyllt sy'n tyfu'n isel.
- Bydd y storfa sbwriel yn cael ei hadeiladu i ddarparu to gwyrdd.
- Mae pob cyfle wedi'i gymryd i ddarparu gwyrddni lle nad oes angen arwyneb solet.
- Bydd blychau adar ac ystlumod wedi'u lleoli ar lefel uchel o amgylch yr adeilad fel y cynghorwyd gan yr ecolegydd.

Roedd y fanyleb a ddefnyddiwyd i aildendro contractau ar gyfer gofal cartref hirdymor yn cynnwys gofynion penodol ynghylch parthau, gan sicrhau mai dim ond un darparwr a gomisiynir sy'n gyfrifol am ddarparu gofal mewn ardal ddiffiniedig. Mae hyn yn osgoi sawl darparwr gofal rhag mynychu eiddo yn yr un stryd ac mae'n darparu mesurau effeithlonrwydd o ran cynllunio gwaith. Roedd y fanyleb hefyd yn cynnwys gofynion ynghylch rhagor o lwybrau cerdded sydd ar gael i gefnogi datgarboneiddio wrth ddarparu gofal rheng flaen ac i gefnogi recriwtio.

Rydym hefyd yn annog ein staff gofal cymdeithasol i ddefnyddio ein cerbydau trydan, yn hytrach na'u cerbydau eu hunain wrth deithio neu ymweld. Mae hyn yn allweddol wrth leihau ein hallyriadau ac i gyd-fynd â'n blaenoriaethau corfforaethol ac â Strategaeth Datgarboneiddio'r Cyngor (2023-2025).

## Strategaeth Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir

Ym mis Ebrill 2024, **cytunodd y Cabinet** ar ein Strategaeth Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir. Wedi'i lywio gan ein Hadolygiad Gwasanaeth GCCh, nod y strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn yw ailgynllunio, ochr yn ochr â rhanddeiliaid, ein drws ffrynt i fod yn wasanaeth cynaliadwy yng nghyd-destun lefelau uchel parhaus o alw gydag ymateb cryf sy'n canolbwyntio ar atal. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, a'n cymunedau, i sicrhau bod plant a theuluoedd yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth dibynadwy ac o ansawdd uchel mor agos at eu pwynt cyswllt cychwynnol â phosibl. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol arall i'r Gwasanaeth, gyda phatrwm parhaus o alw uchel a chynyddol.

Yn 2024/25, derbyniwyd 28,372 o gysylltiadau gan ein Gwasanaeth GCCh. Roedd hyn yn gynnydd bach o gymharu â'r 28,035 o gysylltiadau a dderbyniwyd yn 2023/24, ac o'r rhain aeth 5,276 (18.5%) o'r cysylltiadau ymlaen i asesiad cymesur ac o'r rheini atgyfeiriwyd 573 i'n Timau Ymyrraeth Ddwys ac arweiniodd 3,144 at Ddim Gweithredu Pellach neu gyfeirio i wasanaethau eraill.

## Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol

Mae Gwasanaethau i Blant wedi parhau i gyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r Strategaeth Camfanteisio Ranbarthol drwy Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i godi ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gamfanteisio ac wedi llwyddo i ddarparu hyfforddiant diogelu ar gamfanteisio a thrais difrifol i Gynghorwyr. Cododd yr hyfforddiant hwn ymwybyddiaeth o'r gwahanol gyd-destunau o niwed, y dulliau o feithrin perthynas amhriodol, ffactorau agored i niwed ac arwyddion o niwed, yr effaith ar ddioddefwyr, iaith beio dioddefwyr ac roedd yn cynnwys llais plentyn a rhiant sydd â phrofiad bywyd. Cododd yr hyfforddiant hefyd broffil y Strategaeth Camfanteisio a gymeradwywyd yn ddiweddar. Dyma fydd thema sesiynau diogelu haf gorfodol y Gwasanaeth cyfan a'r Gwasanaethau i Blant yn 2025.

## Proses Ddiogelu Unedig Sengl Newydd

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'r Broses Ddiogelu Unedig Sengl Newydd (ADUS) ac wedi ymrwymo i staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu'r hyfforddiant cadeirydd, adolygydd a phanel.  Rydym wedi cyfrannu at y cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer Grŵp Adolygu ADUS ac wedi cefnogi Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg i adfer a datblygu'r Grŵp Cyflawni Gwella Arferion ymhellach er mwyn sicrhau proses adolygu a monitro gadarn o argymhellion a chamau gweithredu sy'n deillio o ddysgu i wella ymarfer.

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym yn parhau i gymryd rhan mewn rolau amrywiol mewn ADUS, adolygiadau ymarfer plant ac oedolion, adolygiadau lladdiadau domestig a'r adolygiad lladdiad ag arfer ymosodol. Mae dysgu ac arfer da o adolygiadau yn cael ei werthfawrogi a'i rannu drwy fforymau rheoli yn rheolaidd a'u rhaeadru mewn nifer o fformatau, gan gynnwys cyfarfodydd tîm, sesiynau hysbysu a chynnwys, sesiynau briffio 7 munud a chylchlythyrau. Yn y Gwasanaethau i Blant cynhelir sesiynau diogelu haf gorfodol hefyd i sicrhau bod negeseuon allweddol o adolygiadau, archwiliadau a gwaith cenedlaethol ehangach gan roi lle i ymarferwyr fyfyrio ar ymarfer a dysgu effeithiol.

**Safonau Ansawdd Llywodraeth Cymru:**

*"Mae pobl yn cael eu diogelu a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed"*

*"Mae pobl yn cael eu cefnogi i fynd ati i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl"*

Dangosir blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â Llesiant yr ydym wedi'u cyflawni neu eu cyflawni'n rhannol yn y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant yn ystod y flwyddyn yr oeddem wedi bwriadu eu gwneud yn 2024/25, yn y tabl isod.

| Blaenoriaethau yr ydym wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn |
|---|
| Byddwn yn rheoli'r broses o gaffael a throsglwyddo'r contractau gofal cartref yn ddiogel, gan gynnwys ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a staff i gynnwys 'yr hyn sy'n bwysig' iddyn nhw ym manyleb y gwasanaeth. |
| Byddwn yn parhau i ddatblygu'r strategaeth Technoleg yn Gyntaf a byddwn yn sefydlu Canolfan Derbyn Larymau newydd i'r Cyngor ac yn paratoi ar gyfer y newid i systemau digidol drwy amnewid yr unedau llinell fywyd yng nghartrefi pobl dros 2 flynedd. |
| Byddwn yn gwerthuso'r prosiect Sensei a chan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael byddwn yn cynllunio rhaglen hyfforddi Technoleg yn Gyntaf i staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion i ystyried technoleg yn opsiwn cyntaf. |
| Byddwn yn cyflawni'r Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl, gan sicrhau bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal. |

## Gofal Cartref

Yn 2023/24, cytunodd y Cabinet i gomisiynu'r holl ofal cartref hirdymor gan ddarparwyr allanol o 1 Hydref 2024.  Yn ystod 2024, cynhaliwyd ymgysylltu helaeth ag unigolion sy'n defnyddio gofal cartref a'u teuluoedd a'u cynhalwyr di-dâl. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys arolygon a digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb. Datblygodd unigolion a chynhalwyr di-dâl gwestiynau hefyd ar gyfer yr aildendro a chymryd rhan wrth werthuso'r dogfennau cyflwyno i lywio datblygiad y fanyleb tendr a'r broses drosglwyddo. Cwblhawyd caffael contract gofal cartref newydd a throsglwyddo staff TUPE o'r gwasanaeth gofal cartref mewnol yn llwyddiannus ar 1 Hydref 2024.

At ei gilydd, trosglwyddodd 67 o staff o'r ddarpariaeth fewnol i ddarparwyr allanol, gyda llawer mwy yn trosglwyddo rhwng darparwyr allanol o ganlyniad i'r lotiau tendr daearyddol newydd, gyda thua 1,300 o becynnau gofal yn newid darparwyr. Roedd y contractau gofal cartref a gyhoeddwyd yn 2024 yn cynnwys gofynion yn y fanyleb i'n darparwyr a gomisiynwyd fynd ati i ystyried sefydliadau'r 3ydd sector yn eu hardal a gweithio gyda nhw i wella llesiant eu defnyddwyr gwasanaethau.



## Mentrau Technoleg Digidol / Newydd

Rydym wedi parhau i wneud y mwyaf o dechnoleg newydd a sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch ac ar gael i bobl a'u teuluoedd. Mae Strategaeth Technoleg yn Gyntaf Gwasanaethau i Oedolion wedi'i chytuno a bydd yn cael ei symud ymlaen yn 2025/26 ynghyd â'r cynllun hyfforddi.

Yn dilyn treial bach yn 2023/24, cawsom ganlyniadau gwerthusiad Prawf o Werth ar ein prosiect ar y cyd â Sensei Networks, Centerprise International a Karantis 360. Nod y treial oedd deall potensial "y rhyngrwyd pethau" a thechnoleg deallusrwydd artiffisial i wella ansawdd gwasanaethau gofal cymdeithasol a'r potensial i leihau costau gweithredol. Roedd y treial yn cynnwys profi'r defnydd o synwyryddion gyda nifer fach o ddefnyddwyr gwasanaethau i fonitro cwblhau tasgau bywyd bob dydd o bell drwy synwyryddion wedi'u gosod yn eu cartrefi. Yn anffodus, roedd y canfyddiadau dangosol o'r gwerthusiad yn gyfyngedig ac mae angen profion pellach mewn amgylchedd gwahanol i benderfynu ar ddefnyddioldeb y dechnoleg hon mewn asesiadau o anghenion gofal.

Yn 2024/25, cwblhawyd 1,301 o osodiadau newydd o offer technoleg i alluogi byw'n annibynnol, sef cynnydd o 23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, roedd 334 o osodiadau ar gyfer pecyn teleofal pwrpasol sy'n gysylltiedig â chynllun gofal a chymorth, gyda'r nod o ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl mewn modd arloesol ac sy'n galluogi drwy ddefnyddio technoleg a monitro o bell. Roedd gweddill y gosodiadau ar gyfer un o'n pecynnau llinell fywyd, er mwyn i bobl allu byw'n ddiogel ac yn annibynnol gartref, gan alluogi pobl i gysylltu o bell â'n Canolfan Fonitro Llinell Fywyd mewn sefyllfaoedd brys, er enghraifft os ydynt yn cwympo gartref. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 3,896 o gysylltiadau Llinell Fywyd byw.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn, gwnaethom sicrhau Canolfan Derbyn Larymau ddigidol newydd, fel rhan o'n gwaith i gwblhau newid digidol ein system teleofal cyn y dyddiad cau cenedlaethol yn 2027.

## Gwasanaeth Ymatebydd Symudol

Gan adeiladu ar ein cynnig Gwasanaeth Llinell Fywyd presennol, rydym wedi parhau i ddarparu Gwasanaeth Ymatebydd Symudol 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Prif swyddogaeth y Gwasanaeth yw darparu ymateb pan fydd larwm llinell fywyd wedi'i sbarduno a chyfyngu ar nifer y galwadau a wneir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru yn ogystal ag osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a galluogi defnyddwyr llinell fywyd i barhau i fyw'n ddiogel gartref.

Mae holl staff y Gwasanaeth rheng flaen wedi cael eu hyfforddi gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru a'n Gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu ar sut i ddefnyddio'r model "Syrthiaf", ac offer i'w ddefnyddio pan fydd person wedi cwympo.

Yn ystod 2024/25, gwnaeth y Gwasanaeth 4,848 o ymweliadau, ac roedd 2,238 ohonynt oherwydd pobl yn cwympo gartref. Roedd y Gwasanaeth yn gallu defnyddio eu hoffer codi arbenigol i helpu pobl i fyny, gan osgoi 2,053 o gludiadau i'r ysbyty oherwydd cwympiadau. Cyrhaeddodd tua 96% o ymatebwyr symudol o fewn y targed 1 awr, sef cynnydd o 8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Ymatebydd Symudol

Nid oedd ein Canolfan Monitro Llinell Fywyd yn gallu cael ymateb gan y person a weithredodd ei larwm, felly cysylltwyd â'n Gwasanaeth Ymatebydd Symudol, ac aethant i'r eiddo ar unwaith. Ar ôl cyrraedd aethant i mewn i'r eiddo gan ddefnyddio'r blwch allwedd a dod o hyd i'r person ar lawr y gegin.

Gan ddefnyddio "Syrthiaf" aseswyd nad oedd gan y person unrhyw anafiadau ac felly defnyddiwyd offer arbenigol i'w gynorthwyo i safle eistedd a'i gynnal yn ei gadair ymlacio. Cyn gadael yr eiddo, roedd y person wedi setlo, yn ddiogel, ac roedd ganddo ei dlws crog llinell fywyd a phaned o de! Cafodd y Ganolfan Gyswllt Llinell Fywyd ei diweddaru a gwnaethant hysbysu'r perthynas agosaf.

Cyflawnwyd y deilliannau canlynol:

- Ymateb Cyflym y Ganolfan Monitro Llinell Fywyd a'r Gwasanaeth Ymatebydd Symudol a mynd i'r eiddo.
- Atal y person rhag aros ar y llawr am gyfnod hir.
- Rhoi sicrwydd i'r person, gan wneud yn siŵr ei fod yn ddiogel a rhoi gwybod i'r perthynas agosaf.
- Atal presenoldeb Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac osgoi derbyn i'r ysbyty.

Nid oedd angen unrhyw gamau pellach, ac mae'r person yn parhau i fod gartref yn annibynnol.

## Diogelu Oedolion Agored i Niwed

Cynyddodd rhestr aros asesiad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) o 328 o bobl i 515 o bobl yn 2024/25 ac roedd hyn yn rhannol oherwydd anawsterau wrth recriwtio staff dros dro i'r rôl arbenigol hon. Amlygwyd y rhestr aros yn yr Arolygiad ar y cyd o'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Iechyd Cymru ym mis Chwefror 2024. Byddwn yn ystyried yr her barhaus o reoli asesiadau DoLS yn 2025/26 ac mae cynllun gwella ar waith.

Mae'r galw o fewn y Garfan Diogelu Oedolion wedi parhau i fod yn uchel eleni:

- Derbyniwyd 1503 o adroddiadau oedolion mewn perygl yn 2024/25 o'i gymharu â 1180 yn y flwyddyn flaenorol
- Aeth 741 o adroddiadau diogelu ymlaen i ymholiadau A126, cynnydd o gymharu â 598 yn y flwyddyn flaenorol
- Cwblhawyd 79.8% o'r rhain o fewn 7 diwrnod gwaith, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (82.44%) ac mae'n adlewyrchu'r lefel uwch o weithgarwch yn y Garfan
- Derbyniwyd 289 o atgyfeiriadau pryder proffesiynol yn 2024/25, cynnydd o gymharu â 191 ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Arweiniodd 55.7% o'r rhain at drafodaeth strategaeth a chafodd 16 eu cadarnhau
- Cafodd un darparwr cartref gofal ei reoli drwy uwchgyfeirio pryderon

### Astudiaeth Achos: Oedolyn mewn Perygl

Y bobl dan sylw (nid enwau go iawn):

- Lisa (sydd wedi cael diagnosis o anabledd dysgu difrifol ac awtistiaeth)
- Julian (tad a'r cyflawnwr honedig)
- Bev (mam, nid yw'n oedolyn mewn perygl ond mae'n agored i niwed)
- Karen (chwaer, nid yw'n oedolyn mewn perygl ond mae'n agored i niwed)

Nododd atgyfeiriadau i'r Garfan Diogelu Oedolion gan y Garfan Gwaith Cymdeithasol Anabledd Dysgu a gwasanaeth mynediad i waith Karen, y pryderon canlynol:

- Julian yn gosod rhwystrau o ran Lisa yn cael mynediad at wasanaethau ac esgeulustod a cham-drin tebygol
- Ymddygiad newydd a ddangoswyd gan Lisa, a oedd yn ymddangos fel petai'n ceisio cyfathrebu trallod
- Pryderon am gam-drin domestig yn y cartref

Nododd ymholiadau cychwynnol a126 fod y trothwy ar gyfer diogelu wedi'i fodloni. Ar ôl sawl cyfarfod amlasiantaethol, ymyriadau gwaith cymdeithasol ac ymyriadau cam-drin domestig a gwrandawiadau yn y Llys Gwarchod, gwnaed Gorchymyn Lles y Llys Gwarchod i Lisa gael ei symud o gartref y teulu i ofal seibiant ynghyd â chydlynu gwasanaethau cam-drin domestig i gefnogi Bev a Karen i loches er eu diogelwch.

Mae Lisa bellach wedi setlo'n dda mewn llety â chymorth hirdymor. Mae Bev a Karen yn byw gyda'i gilydd yn annibynnol gyda chymorth gan y Gwasanaethau Trais Domestig.

## Gwasanaethau i Blant

**O ran y plant hynny na allant aros gyda'u teuluoedd, rydym am wneud yn siŵr bod modd iddynt dderbyn gofal yn nes at y cartref. Yn 2024/25, gwnaethom barhau i weithio gyda darparwyr i ddatblygu digonolrwydd lleoliadau yn agos i gartref, gan wneud yn siŵr bod y Cyngor yn darparu'r llety a'r cymorth sydd eu hangen ar ein plant sy'n derbyn gofal.**

Yn unol ag uchelgais Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant, rydym yn gweithredu ein **Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl** hirdymor y cytunwyd arni gan y Cabinet ym mis Chwefror 2023. Mae'r Strategaeth yn dod â gwaith ynghyd o dan y canlynol:

- Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf – sy'n ceisio recriwtio a chadw cynhalwyr maeth yr awdurdod lleol.
- Datblygu Cartrefi Plant y Cyngor yn unol â dadansoddiad o anghenion.
- Strategaeth Comisiynu Lleoliadau – sy'n nodi ein bwriad comisiynu a llywio gwaith gyda darparwyr.
- Strategaeth Llety a Chymorth 16 oed a throsodd – gweithio tuag at gyflenwad digonol o lety â chymorth addas.

Cyflwynwyd **adroddiad cynnydd** i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ym mis Rhagfyr 2024.

Drwy'r Strategaeth, rydym yn datblygu darpariaeth newydd o gartrefi plant sy'n diwallu anghenion ac sy'n cyd-fynd â'r ddyletswydd ddigonolrwydd statudol gan gynnwys nodi'r darparwyr hynny a fydd yn cydweithio/trosi i nid-er-elw. Yn 2024/25, rydym wedi agor dau gartref plant newydd, wedi recriwtio a hyfforddi staff ar gyfer y cyfleusterau newydd hyn yn ogystal ag adnewyddu trydydd eiddo y mae disgwyl iddo gael ei gofrestru fel cartref plant ym mis Mai 2025.

Yn gadarnhaol, o'r 611 o blant sy'n derbyn gofal, mae 73% yn byw yn Rhondda Cynon Taf (yn nes at y cartref). O'r 302 o leoliadau a ddechreuodd yn 2024/25, cafodd 63% eu lleoli yn Rhondda Cynon Taf (yn nes at y cartref). Mae 20 o blant wedi'u lleoli mewn cartrefi plant mewnol ym mis Mawrth 2025 o'i gymharu â 19 ym mis Mawrth 2024. Mae nifer y plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru hefyd wedi gostwng o 5% ym mis Mawrth 2024 i 2% ym mis Mawrth 2025.

Er gwaethaf y datblygiadau cadarnhaol hyn, bu'n angenrheidiol unwaith eto i ddibynnu ar nifer fach o leoliadau Gweithredu Heb Gofrestriad lle mai'r dewis arall annerbyniol fyddai darparu dim llety na gofal i'r person ifanc dan sylw. Mae hyn oherwydd nad oes digon o gyflenwad o gartrefi plant addas a llety â chymorth. Derbyniodd **Bwrdd Rhianta Corfforaethol** y Cyngor adroddiad gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ym mis Medi 2024, a adolygodd y trefniadau hyn ac a ddarparodd sicrwydd sylweddol ac awgrymiadau defnyddiol ar gyfer datblygu sydd wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau.

**Maethu Cymru Rhondda Cynon Taf** yw Gwasanaeth Maethu'r Cyngor. Yn unol â'n Strategaeth Trawsnewid Gwasanaethau Preswyl, yn 2024/25 gwnaethom barhau i weithio i gynyddu'r cyflenwad o gynhalwyr maeth a'u sgiliau yn Rhondda Cynon Taf. Ar hyn o bryd mae 357 o blant mewn gofal maeth yr awdurdod lleol o'i gymharu â 368 ym mis Mawrth 2024. Mae angen rhagor o deuluoedd maeth arnom ac rydym yn parhau i flaenoriaethu recriwtio wedi'i dargedu ar gyfer cynhalwyr maeth er mwyn diwallu'r angen hwn yn ein cymunedau.

Gwnaethom benodi swyddog recriwtio i ysgogi'r gwelliant hwn yn 2024/25 a microdargedu cymunedau llai ar draws y Fwrdeistref Sirol i sicrhau gweithgareddau marchnata haenog effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a marchnata gan gynnwys **digwyddiadau 'Cwrdd â'n Carfan'** yn ein cymunedau, sydd wedi arwain at gynnydd mewn gweithgareddau recriwtio. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgaredd hwn wedi arwain at gynnydd yn nifer y cynhalwyr maeth eto.

Yn 2024/25, roedd cyfanswm o 248 o gynhalwyr maeth (124 prif ffrwd a 124 sy'n berthynas) yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cymharu â 268 yn 2023/24 (128 prif ffrwd a 140 sy'n berthynas). Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y cynhalwyr maeth yn unol â'n cynlluniau wedi'u costio. I gael gwybod rhagor am Faethu Cymru, gallwch ddarllen ein **Hadroddiad Ansawdd Gofal** a gyflwynwyd i'n Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Mae cynnydd tuag at ddileu elw a sicrhau digonolrwydd wedi'i wneud, ond mae pwysau gweithredol, gofynion adnoddau, ac amser wedi effeithio ar gyflymder a graddfa'r newid. Mae gan argaeledd cyllid parhaus Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag adnoddau'r Cyngor a gweithlu digon medrus, berthynas gref â dichonoldeb cyflawni nodau polisi cenedlaethol yn Rhondda Cynon Taf.

Yn y tymor byr, bydd ffurf darpariaeth gofal preswyl a gofal maeth yn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddull economi gymysg o wasanaethau a gomisiynir yn allanol gan ddarparwyr sydd ag amrywiaeth o fodelau busnes, a darpariaeth fewnol i sicrhau digonolrwydd. Byddwn yn parhau i ailgydbwyso a lleihau ein dibyniaeth ar wasanaethau 'er elw' a gomisiynir yn allanol, gan adolygu digonolrwydd wrth i wasanaethau maeth a phreswyl Rhondda Cynon Taf ddatblygu. Fodd bynnag, pan fydd gennym wybodaeth gliriach am fwriadau busnes 'darparwyr er elw' yn y dyfodol, byddwn yn ailystyried ein camau nesaf yn hyn o beth.

## Addewid Rhianta Corfforaethol

Ym mis Ebrill 2024, cymeradwywyd yr Addewid Rhianta Corfforaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf **gan y Cabinet**. Mae ymrwymiad cryf i gefnogi a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifainc â phrofiad o fod mewn gofal. Drwy lofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru: "Addewid Cymru" a mabwysiadu'r Addewid Rhianta Corfforaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, mae'r Cyngor yn dangos yr ymrwymiad hwn yn glir.

Mae ein hymgyngoriadau â phlant a phobl ifainc wedi llywio datblygiad y 7 blaenoriaeth sy'n sail i'r Addewid Rhianta Corfforaethol ar gyfer Rhondda Cynon Taf. Dyma'r rhain:

1. Sicrhau bod plant a phobl ifainc yn teimlo eu bod yn derbyn gofal a chymorth da.
2. Bod â llais i ddatblygu a gwella gwasanaethau yn rhan o'n cylch adborth 'Dywedoch chi, byddwn ni, fe wnaethon ni...' a rhoi gwybod i chi sut rydyn ni wedi gwneud gwelliannau i'ch gofal a'ch cymorth.
3. Mynediad at gymorth iechyd meddwl a lles.
4. Cartref sefydlog sy'n gyfforddus ac yn ddiogel tra eich bod chi'n derbyn gofal ac wrth adael gofal.
5. Gwybodaeth hygyrch a chymorth ar gyfer byw'n annibynnol.
6. Gwella deilliannau ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.
7. Dathlu cyflawniadau plant a phobl ifainc i ddatblygu'u dyheadau presennol a'u dyheadau yn y dyfodol.

Cyflwynwyd **adroddiad** sy'n cynnwys crynodeb o'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y flwyddyn i fwrw ymlaen â'r Addewid i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ionawr 2025.

## Cyfleoedd Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant i Blant â Phrofiad o fod mewn Gofal

Rydym wedi parhau i ddarparu cymorth a chyngor a chyflwyno cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant i'n pobl ifainc sy'n byw mewn gofal neu'n gadael gofal drwy amrywiaeth o raglenni i wella cyflogadwyedd a rhagolygon o ran dod o hyd i swydd. Fe ddarparon ni **ddiweddariad blynyddol** ar ein rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir a'n rhaglen GofaliWaith i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ym mis Ebrill 2025.

## Astudiaeth Achos: Rhaglen Hyfforddeiaeth Camu i'r Cyfeiriad Cywir

Mae hon yn rhaglen ddwy flynedd sy'n cynnig swyddi dan hyfforddiant â thâl i bobl ifainc 16-25 oed sydd mewn gofal, neu sy'n gadael gofal, yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyfforddeion yn cael cyfleoedd gwaith mewn amrywiaeth o Adrannau'r Cyngor ac maent yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gael y profiad gwaith a'r hyfforddiant sy'n ofynnol i'w helpu i gael cyflogaeth ar ddiwedd y rhaglen.

Recriwtiwyd 8 hyfforddai yn 2024/25 a chyflawnwyd y cymwysterau canlynol/gweithio tuag atynt:

**1** x NPLQ (Cymhwyster Achubwr Bywyd Pwll Cenedlaethol)
**3** x Hyfforddwr Campfa Lefel 2
**1** x Gofal Plant Lefel 2
**1** x Trwydded Peiriannau a Lori Godi
**1** x Gofal Cymdeithasol Lefel 2

Llwyddodd EE i sicrhau lle ar raglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir ym mis Medi 2020 ar leoliad ym maes TGCh. Yna aeth ymlaen i sicrhau lle ar ein rhaglen brentisiaeth ac ym mis Chwefror 2025 dyfarnwyd Gwobr Enillydd Aur Prentis y Flwyddyn iddo yng Ngwobrau Blynyddol Llwyddiant drwy Sgiliau yng Nghaerdydd.

## Astudiaeth Achos: GofaliWaith

Mae'r rhaglen hon yn ceisio rhoi anogaeth a chymorth i bobl ifainc 16-25 oed â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn nodi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddi a manteisio arnynt.  Dangosir crynodeb o'r deilliannau a gyflawnwyd yn 2024/25 isod:

Atgyfeiriadau – **93**
Wedi sicrhau cyflogaeth – **6**
Wedi mynd i addysg bellach – **15**
Wedi ennill cymhwyster – **19**
Wedi cwblhau cwrs GofaliWaith – **19**
Profiad gwaith a gwirfoddoli – **10**

### Cwrs Cyflogadwyedd yr Haf

Mae'r Garfan GofaliWaith yn cyflwyno rhaglen chwe wythnos ar gyfer pobl ifainc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n darparu sgiliau cyflogadwyedd ac yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith. Eleni cydweithiodd y Garfan ag Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian a Chyngor Tref Tonypandy i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i'n pobl ifainc mewn amrywiaeth o leoliadau yng nghanol tref Tonypandy. Mae'r deilliannau allweddol a gyflawnwyd yn cynnwys:

**12** o bobl ifainc wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus
**12** o bobl ifainc wedi ennill cymwysterau (Cymorth Cyntaf a Gwasanaethau i Gwsmeriaid)
Aeth **11** o bobl ifainc ar brofiad gwaith
**11** o bobl ifainc wedi'u cofrestru gyda Choleg/Hyfforddiant

## Diogelu Plant a Phobl Ifainc

Mae nifer y cysylltiadau sy'n mynd ymlaen i asesiad yn gymharol isel ar 21%. Mae hyn yn gymharol sefydlog o'i gymharu â data 2023/24. Eleni bu ffocws ar draws rhanbarth Cwm Taf Morgannwg ar gryfhau'r cynnig o atal, ymyrraeth gynnar a chyfeirio (lle y bo'n briodol), gwaith sicrhau ansawdd mewnol ar benderfyniadau (trothwyon) Gweithdrefnau Diogelu Cymru a datblygu canllawiau trothwy Gwasanaethau i Blant Amlasiantaethol i gefnogi dealltwriaeth a rennir o wneud penderfyniadau ynghylch trothwyon a chymorth cymhwysedd.

Bu datblygu a gweithredu parhaus o'n modelau ymarfer gwaith cymdeithasol gyda ffocws allweddol ar gryfderau, perthnasoedd, cydweithredu, ystyriol o drawma, dulliau teulu cyfan. Mae'r datblygiadau hyn yn unol ag argymhellion Adolygiad Cyflym AGC ac Estyn o'r Trefniadau Amddiffyn Plant.

Cymeradwywyd Ffurflen Atgyfeirio Diogelu Plant a chanllawiau cymorth diwygiedig gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ym mis Rhagfyr 2024. Gobeithio y bydd y rhain yn helpu ymhellach i ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg iawn, atgyfeiriadau o ansawdd a dealltwriaeth a rennir o brosesau gwneud penderfyniadau asiantaethau. Mae nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i ymholiadau amddiffyn plant wedi gostwng ac mae hyn yn unol â'r dulliau model ymarfer a drafodwyd uchod, gan sicrhau bod ymyriadau gyda theuluoedd yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, sicrhau penderfyniadau cymesur ac atal ac ymyrraeth gynharach i atal uwchgyfeirio i brosesau amddiffyn plant. Felly, bu gostyngiad yn nifer y Plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o 331 ar ddiwedd mis Mawrth 2024 i 309 ar ddiwedd mis Mawrth 2025.

## Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches

Bu cynnydd yn nifer y ffoaduriaid sy'n blant digwmni (plant digwmni sy'n ceisio lloches) sydd wedi mynd i'n gofal o 28 (11 o blant digwmni sy'n ceisio lloches o dan 18 oed ac 17 dros 18 oed) ym mis Mawrth 2024 i gyfanswm o 37 (10 o blant digwmni sy'n ceisio lloches o dan 18 oed a 27 dros 18 oed) ddiwedd mis Mawrth 2025 drwy Gynllun Trosglwyddo Cenedlaethol y DU a nifer fach o newydd-ddyfodiaid dirybudd. Rydym yn rhagweld y bydd angen cynyddol yn y maes yma wrth i ffactorau geowleidyddol; economaidd; a hinsoddol sbarduno mudo ar draws cenhedloedd.

### Astudiaeth Achos: Taith M

Cyrhaeddodd M y DU yn 15 oed o Sudan ar 11 Gorffennaf 2022. Gadawodd Sudan ym mis Mehefin 2021, a bodio ei ffordd i Chad am 6 mis, Libya am 4 mis, yr Eidal am fis, cyn cyrraedd Ffrainc a theithio i'r DU mewn cwch. Cynghorodd ei fod wedi cael ei orfodi i adael Sudan oherwydd bygythiadau i'w ladd, gan ei fod wedi'i ddal yn y gwrthdaro llwythol.

Fel rhan o'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol, cafodd ei neilltuo i Rondda Cynon Taf, a dyrannwyd gweithiwr cymdeithasol o'r Garfan 16+ iddo. Cynhaliwyd ei asesiad cychwynnol gan Dîm Derbyn Caint a rhoddwyd M mewn gofal maeth dros dro yn Hounslow ym mis Awst 2022. Chwalodd y lleoliad hwn ym mis Ionawr 2023.

Roeddem wedi sicrhau eiddo rhent ger Prifysgol De Cymru, ar gyfer pobl ifainc digwmni sy'n ceisio lloches. Roedd y Garfan 16+ yn pryderu am symud M o ardal brysur, amlddiwylliannol ger Llundain, i dref fach yn y cymoedd. Fodd bynnag, mae deilliannau cadarnhaol wedi'u cyflawni:

- Mae M yn cael ei gefnogi yn yr eiddo gan dîm staff sefydlog y mae'n dod i'w adnabod.
- Mae gan yr ardal boblogaeth fwy amrywiol gan ei bod yn agos i'r Brifysgol. Dim ond 11 milltir o Gaerdydd ydyw, lle mae'n mynychu'r mosg, ac mae'n gallu siopa am ei ddeiet halal.
- Mae M yn parhau i ddysgu Saesneg drwy ddosbarthiadau ESOL, gan gynnwys ar-lein a thrwy'r teledu, a sgyrsiau gyda staff.
- Mae'n chwarae pêl-droed i'r Garfan Galw Heibio 16+ yng Nghynghrair Pobl.
- Mae M yn mynd i'r gampfa gyda staff 3-4 gwaith yr wythnos.
- Mae ganddo bellach berthynas ardderchog gyda'i Weithiwr Cymdeithasol
- Yn ddiweddar, aeth M ar gwrs 5 diwrnod y Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol, gan adeiladu ar hunan-barch, sgiliau bywyd, a hyder.
- Mae wedi ymgymryd â dau gwrs ffotograffiaeth natur, ac rydym wedi prynu camera iddo.
- Yn ddiweddar cafodd benwythnos hir mewn bwthyn yn Ninbych-y-pysgod gyda staff asiantaeth a chafodd amser gwych ac roedd yn werthfawrogol iawn.
- Mae M newydd ddechrau yn Chweched Dosbarth Ysgol Uwchradd Cathays ac mae wrth ei fodd yno!

## Gwasanaethau i Oedolion

- Buddsoddi mewn offer digidol a chymunedol i gefnogi a lleihau'r galw am ofal ffurfiol, gan ddatblygu ein cynnig technoleg gynorthwyol i alluogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain.
- Gweithio gydag unigolion i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wneud pethau drostynt eu hunain fel eu bod yn sicrhau'r dewis a'r rheolaeth fwyaf posibl dros eu bywydau.
- Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaethau i Blant i sicrhau bod y pontio i bobl ifainc a'u rhieni/cynhalwyr i Wasanaethau i Oedolion yn brofiad cadarnhaol sy'n cefnogi'r dilyniant i annibyniaeth ac ymreolaeth yn briodol.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i weithredu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol integredig sy'n gallu cydlynu dull effeithiol a di-dor, naill ai fel ymateb brys i salwch acíwt neu argyfwng neu i reoli anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cronig a hirdymor. Yn gysylltiedig â hyn mae dull integredig o gefnogi rhyddhau o'r ysbyty yn amserol.
- Darparu gwasanaeth asesu effeithiol i helpu pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Pan fo rhestrau aros ar gyfer asesiad yn angenrheidiol, byddwn yn adolygu'n barhaus yn ôl meini prawf risg y cytunwyd arnynt ac yn sefydlu prosesau uwchgyfeirio i ganolbwyntio adnoddau ar y rhai sydd â'r angen mwyaf ac sydd fwyaf mewn perygl o niwed.
- Datblygu amrywiaeth o gyfleoedd yn ystod y dydd a gwasanaethau dydd i bobl ag anghenion cymwys. Ein nod allweddol yw cynorthwyo pobl i gyfleoedd cymunedol prif ffrwd. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn briodol nac yn hygyrch i bobl ag anghenion mwy cymhleth. Ein cyfrifoldeb fydd darparu neu gomisiynu amrywiaeth o gyfleoedd o fewn ein hadnoddau sydd ar gael a sicrhau ein bod yn hwyluso'r cysylltiad i bobl â gwasanaeth a all eu helpu i gyflawni'r canlyniad gorau.
- Cyflawni ein Strategaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol i Oedolion a chynlluniau gweithredu ategol er mwyn sicrhau capasiti'r gweithlu i fodloni gofynion y boblogaeth.
- Gwneud yn siŵr bod gan bobl ag anableddau dysgu fynediad at lety â chymorth sy'n eu galluogi i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl yn y gymuned.
- Cynyddu a gwella opsiynau llety hyblyg, ymatebol i bobl hŷn.
- Pan fydd pobl yn adfer eu hiechyd a'u gallu i reoli eu trefniadau byw eu hunain, byddwn yn eu cefnogi i symud ymlaen i lety mwy priodol mewn modd amserol.

## Gwasanaethau i Blant

- Ein Strategaeth Cymorth Cywir, Amser Cywir a Lle Cywir i ailgynllunio ochr yn ochr â rhanddeiliaid ein drws ffrynt i fod yn wasanaeth cynaliadwy gydag ymateb cryf sy'n canolbwyntio ar atal.
- Strategaeth y Gweithlu 2021-2024 - Mae gweithlu Gwasanaethau i Blant Rhondda Cynon Taf yn llawn cymhelliant, yn ymgysylltu ac yn cael ei werthfawrogi; mae gan staff y capasiti, y sgiliau, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd.
- Gwasanaethau Atal Plant sy'n Derbyn Gofal - Targedu gwasanaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth tuag at gymorth i deuluoedd i sicrhau mai dim ond y plant hynny nad oes dewis arall diogel iddynt sy'n derbyn gofal.
- Gwneud yn siŵr bod y bobl ifainc sydd angen gofal preswyl yn derbyn gofal yn agos i gartref mewn lleoliadau o safon lle gallant ffynnu a bod grŵp staff sefydlog, cydnerth, medrus gyda chefnogaeth dda yn gofalu amdanynt. Mae'r gwaith yn cynnwys 2 faes cyd-ddibynnol:
    - Maethu Cymru
    - Strategaeth Llety a Chymorth i'r rhai sy'n Gadael Gofal



PENNOD

4

# GWYBODAETH ARALL

## a) Arolygu ac adolygiadau

### Beth mae ein harolygwyr yn ei ddweud am ein Gwasanaethau i Oedolion?

- Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref (Mae'r Gwasanaeth hwn yn cynnwys Gofal Cartref, Gofal Canolraddol, Gwasanaeth Adsefydlu a Gofal Ychwanegol)

Cynhaliwyd arolygiad gwreiddiol Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaeth Cymorth yn y Cartref ym mis Rhagfyr 2023 ac amlygodd rai arferion rhagorol, gan gynnwys recriwtio staff yn ddiogel; perthnasoedd da â phobl sy'n gyffredinol yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn; a staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl. Roedd rhai gwelliannau a nodwyd yn cynnwys amlder adolygiadau o gynlluniau personol a sicrhau bod amddifadu o ryddid yn y gymuned yn gyfreithlon.

Cynhaliwyd arolygiad pellach ym mis Rhagfyr 2024, a chanfuwyd bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â Safonau Amddifadu o Ryddid er bod gwaith i'w wneud o hyd mewn rhai meysydd i sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel bod dealltwriaeth o'r graddau y mae deilliannau pobl yn cael eu cyflawni.

### Beth mae ein harolygwyr yn ei ddweud am ein Gwasanaethau i Blant?

- Arolygiad o'r Gwasanaeth Maethu gan AGC ym mis Tachwedd 2023

Mae camau arolygu wedi'u cyflawni'n rhannol gyda gostyngiad sylweddol yn nifer yr adolygiadau y tu allan i amserlen o 168 i 31, gyda 29 o'r 31 o arolygiadau hynny wedi dechrau.

Mae'r argymhellion arolygu maethu yn rhan o gynllun gweithredu sy'n cyflawni ailstrwythuro gwasanaeth i fodloni'r argymhellion i wella ansawdd y cymorth rheoli a ddarperir a meintiau timau mwy teg. Mae amserlenni adolygu blynyddol hefyd yn gwella gyda chymorth gan staff asiantaeth i glirio'r ôl-groniad.

- Cartrefi Plant: Adroddiadau Arolygu Ansawdd Gofal AGC 2024/25:

Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau wedi bod yn gadarnhaol, gan ddangos bod ein cartrefi preswyl yn darparu gofal o ansawdd uchel yn gyson mewn amgylchedd heriol. Fodd bynnag, mae Arolygiad o Ystrad Fechan wedi arwain at Hysbysiadau Gweithredu Blaenoriaeth ac mae gwaith adnewyddu helaeth yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r rhain.

- Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Ym mis Mai 2024 cafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf ei arolygu gan HMIP ar draws tri maes eang:

- y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn sefydliadol
- ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd
- ansawdd gwaith datrysiad y tu allan i'r llys

Cyhoeddwyd **adroddiad Arolygu HMIP** ar 20 Awst 2024 a chyflawnodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cwm Taf sgôr gyffredinol 'Da'. Arolygodd HMIP hefyd ansawdd Polisi Adsefydlu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'i ddarpariaeth, a gafodd ei raddio hefyd fel 'Da', ond ni chafodd hyn ei gynnwys fel rhan o'r graddio cyffredinol. Cytunwyd ar gynllun gweithredu gwella datblygu gwasanaethau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad HMIP a bydd hyn yn cael ei fonitro a'i adolygu gan Fwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB).

## b) Cwynion a sylwadau

### Canmoliaethau a chwynion Gwasanaethau i Oedolion

Mae proses ganmoliaeth a chwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd roi adborth. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer y cwynion a'r canmoliaethau a gafwyd eleni ac yn y tair blynedd flaenorol.

| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y cwynion a gafwyd** | 57 | 74 | 79 |
| **Nifer y canmoliaethau a gafwyd** | 70 | 90 | 81 |

Mae'r rhan fwyaf o gwynion a gafwyd am ofal cymdeithasol i oedolion yn cael eu gwneud gan gynhalwyr a pherthnasau ar ran yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth. Cafwyd tair cwyn drwy eiriolwyr a chafwyd un gŵyn drwy Llais Cymru. Er nad ydynt wedi'u cofnodi ar hyn o bryd, ceir cyfran uchel o'r cwynion hyn mewn perthynas ag oedolion sydd yn ôl natur eu hoedran, eu hanabledd neu eu galluedd meddyliol â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Garfan Adborth, Ymgysylltu a Chwynion Cwsmeriaid ynghyd â Gwasanaethau i Oedolion yn ymdrechu i sicrhau bod anghenion yr unigolion hynny yn cael eu hystyried drwy'r broses gwyno a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon diogelu a nodwyd yn brydlon drwy'r weithdrefn ddiogelu briodol.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae nifer y cwynion am Wasanaethau i Oedolion yn gyffredinol yn parhau i fod yn gymharol isel mewn cyferbyniad â nifer y bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau. Weithiau, pan nad ydym wedi gallu bodloni disgwyliadau pobl, rydym yn defnyddio'r adborth i ddysgu beth allwn ei wneud yn well a, lle y bo angen, rydym yn gwneud newidiadau i wneud hyn.

Enghraifft o hyn yw adborth gan deuluoedd drwy gwynion a sylwadau a gafwyd sy'n ymwneud â chodi tâl amhreswyl a phreswyl a'r pryder a'r straen a nodwyd ganddynt wrth lywio'r broses asesu ariannol a chodi tâl. Nodwyd nifer o faterion gan gynnwys cyngor anghyson gan asiantaethau partner (iechyd), diffyg gwybodaeth a diffyg ymgysylltu â'r broses asesu a chyflwynwyd swydd newydd a phenodi'n llwyddiannus iddi yn 2024/25 er mwyn cynorthwyo teuluoedd drwy'r broses codi tâl a thrwy hynny wella prydlondeb asesiadau yn ogystal â nodi a lledaenu arfer da ar draws Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae cwynion sy'n ymwneud â materion cyllid wedi cael eu craffu gan bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cygnor yn dilyn y materion a godwyd yn adroddiad blynyddol cwynion 2023/24.

Yn unol ag argymhellion "***Herio penderfyniadau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr (equalityhumanrights.com)***" mae gwybodaeth i'r cyhoedd ar gael ar wefan y Cyngor sy'n cynghori am hawl unigolyn i herio penderfyniad a chanlyniad asesiad neu benderfyniad cymhwysedd. Mae trefniadau ar gyfer polisi apeliadau a phroses glir ar gyfer delio â'r heriau hyn yn cael eu datblygu gyda phartneriaid rhanbarthol a byddant ar gael yn 2026.

### Canmoliaethau a chwynion Gwasanaethau i Blant

Mae proses ganmoliaeth a chwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd a'u cynhalwyr roi adborth. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer y cwynion a'r canmoliaethau a gafwyd eleni ac yn y tair blynedd flaenorol.

| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y cwynion a gafwyd** | 70 | 89 | 83 |
| **Nifer y canmoliaethau a gafwyd** | 75 | 55 | 43 |

Mae nifer y cwynion am Wasanaethau i Blant yn gyffredinol yn parhau i fod yn isel ar gyfer y cyfnod hwn ac yn gyson â'r llynedd. Weithiau, pan nad ydym wedi gallu bodloni disgwyliadau pobl, rydym yn defnyddio'r adborth i ddysgu beth allwn ei wneud yn well a, lle y bo angen, rydym yn gwneud newidiadau i wneud hyn.

Prif ffynhonnell y cwynion oedd gan rieni/cynhalwyr gyda dim ond un sylw gan blentyn a pherson ifanc drwy ein darparwr eiriolaeth a gomisiynwyd. Cafwyd dwy gŵyn gan rieni, un drwy'r darparwr eiriolaeth rhieni a gomisiynwyd ac un drwy Llais Cymru.

Mae cwynion yn y cyfnod hwn wedi amlygu nifer o feysydd i'w hystyried ymhellach ynghylch sut y gellir datblygu gwasanaethau a chymorth i blant a theuluoedd ymhellach i ddiwallu eu hanghenion yn fwyaf effeithiol. Mae'r themâu canlynol wedi'u nodi.

- Eiriolaeth Rhieni - Er ei bod yn gadarnhaol bod Gwasanaethau i Blant yn comisiynu Cymorth Eiriolaeth i deuluoedd sy'n ymwneud â'r Broses Amddiffyn Plant, mae nifer fach o gwynion wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw gwybodaeth bob amser yn cael ei lledaenu i deuluoedd ac y gall fod oedi mewn atgyfeiriadau. Mae'r wybodaeth bresennol hon yn cael ei hadolygu ynghyd â'r broses ar gyfer sicrhau bod teuluoedd yn cael y wybodaeth gywir mewn modd amserol a bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud yn brydlon i sicrhau bod eiriolwyr yn cael digon o gyfle i geisio barn rhieni cyn y gynhadledd.
- Asesiadau cynhalwyr - Mae cwynion eleni wedi codi materion ynghylch asesiad cynhalwyr yn cael ei ystyried mewn amgylchiadau lle gallai asesiad mwy cyfannol o anghenion teulu fod wedi nodi pobl ifainc â rôl ofalu. Er bod cwynion mewn perthynas â'r mater hwn yn isel, codwyd y materion o ymchwiliadau cwynion annibynnol ffurfiol a byddant yn cael eu hystyried ymhellach yn 2025/26.

Yn ogystal, roedd ymgysylltu â thadau yn fater a amlygwyd yn 2023/24 yn dilyn nifer o gwynion cam 2 gan dadau a nododd eu bod yn teimlo nad oeddent yn cael eu trin yn deg ac nad oedd eu barn yn cael eu hystyried yn briodol. Er na chafodd pob cwyn ei chadarnhau, cydnabuwyd bod ymarferwyr ar adegau yn gweld ymgysylltu â thadau absennol yn arbennig yn fwy heriol ac wedi hynny yn 2024/25 datblygwyd sesiwn hyfforddiant gweminar/fideo i helpu ymarferwyr i ystyried rhai o'r rhwystrau posibl i weithio gyda thadau yn ogystal ag ystyried arfer da yn y maes hwn.

## c) Cyfeirio at ffynonellau eraill o wybodaeth

**Cynllun Corfforaethol y Cyngor 'Gweithio gyda'n Cymunedau'**

**Adroddiad Perfformiad y Cyngor 31 Mawrth 2025**

**Hunanasesiad CBSRhCT 2023/24**

**Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023/24**

## d) Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| **Ailalluogi / Adsefydlu / Gofal interim** | Gelwir y gofal tymor byr hwn weithiau yn ofal canolraddol, neu ôl-ofal. Mae ailalluogi yn fath o ofal sy'n helpu pobl i ailddysgu sut i wneud gweithgareddau bob dydd, fel coginio prydau bwyd a golchi. Mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol gyda'r nod o liniaru'r angen am ofal a chymorth hirdymor. |
| **Gofal Cartref / Gwasanaeth Cymorth Cartref** | Mae gofal cartref yn cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref person ei hun. Gall gynnwys cymorth gyda bywyd o ddydd i ddydd a materion gofal iechyd penodol i'r henoed. |
| **Cartref Gofal Preswyl / Cartref Nyrsio** | Mae cartref gofal preswyl yn darparu llety a gofal personol a chymorth 24 awr i'r bobl hŷn ac eraill a allai ei chael yn anodd rheoli bywyd bob dydd gartref. Mae cartref gofal preswyl a chartref nyrsio yn darparu gofal a chymorth 24 awr y dydd. Fodd bynnag, y prif wahaniaeth yw bod cartref nyrsio yn gallu darparu lefel uwch o ofal. Mae gan gartrefi nyrsio nyrsys cymwysedig ar y safle ddydd a nos i ddarparu gofal meddygol yn ôl yr angen ac mae cartrefi preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. |

Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| **Plant â phrofiad o fod mewn gofal** | Mae profiad o fod mewn gofal yn derm ymbarél a all olygu plant / pobl ifainc sy'n:<br>• Derbyn gofal gartref drwy Orchymyn Gofal<br>• Derbyn gofal oddi cartref mewn tŷ preswyl i blant, mewn lleoliad maeth neu mewn lleoliad â gofal perthynas (yn derbyn gofal neu heb ofal)<br>• Wedi derbyn gofal yn flaenorol, lle ar ryw adeg yn eu bywydau maent wedi cael unrhyw un o'r profiadau uchod. Efallai na fydd y plentyn / person ifanc erioed wedi derbyn gofal ffurfiol. |
| **Gadawr Gofal** | Yng Nghymru, mae pobl sy'n gadael gofal yn unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am o leiaf 13 wythnos ers eu bod yn 14 oed ac sydd wedi gadael gofal ar neu ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed. Bwriedir i'r cymorth a ddarperir i'r rhai sy'n gadael gofal fod yn gyfwerth â'r hyn y gallai plentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl yn rhesymol gan ei rieni. |
| **Plant sy'n derbyn gofal** | Nid yw plant a phobl ifanc sy'n 'derbyn gofal' yn byw gyda'u rhieni, naill ai dros dro neu'n barhaol, oherwydd am lawer o resymau ni allant ofalu amdanynt yn ddiogel. |
| **Diogelu** | Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion rhag cam-drin neu esgeulustod ac addysgu'r rhai o'u cwmpas i nodi'r arwyddion a'r peryglon. |
| **Gweithdrefnau Diogelu Cymru** | Maent yn manylu ar y rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr i sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod. Mae'n darparu geirfa ddefnyddiol o dermau diogelu: **Diogelu Cymru**. |
| **Fframwaith Perfformiad a Gwella: Mesur data gweithgarwch a pherfformiad** | Mae hyn yn cyflwyno fframwaith o fetrigau sy'n cwmpasu oedolion, plant a chynhalwyr y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ynghyd â data dienw ar lefel person a data cyfanredol ar agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Mae'n dweud y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain hefyd er mwyn deall yn well sut mae darparu gofal cymdeithasol yn lleol yn gweithio yn ôl blaenoriaethau lleol. |

Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)** | AGC yw'r rheoleiddiwr darparwyr gofal cymdeithasol. Maent yn cofrestru, yn arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ar gyfer llesiant pobl Cymru. |
| **Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC)** | GCC yw rheoleiddiwr y gweithlu. Fel rhan o hyn maent yn cofrestru ac yn gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth ac yn datblygu'r gweithlu. Mae gan GCC gylch gwaith gwella hefyd, lle byddant yn rhannu arfer da, yn gosod blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd a sefydliadau eraill. |
| **Preswylydd / Dinesydd** | Person y mae ei breswylfa arferol o fewn ffin yr awdurdod lleol. |
| **Defnyddiwr Gwasanaethau** | Person sy'n cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol. |
| **Cynllun Cysylltu Bywydau / Lleoli Oedolion** | Mae Cynlluniau Cysylltu Bywydau – a elwir hefyd yn lleoliadau oedolion – yn ffordd deuluol o gefnogi anghenion tai person agored i niwed. Gall y math hwn o lety â chymorth fod y garreg gamu ddelfrydol ar y ffordd i fyw'n annibynnol. Cyfeirir at y trefniant rhannu hwn yn aml fel 'cysylltu bywydau'. |
| **Taliadau Uniongyrchol** | Mae taliadau uniongyrchol yn cael eu rhoi i unigolion er mwyn eu galluogi i dalu am eu gofal eu hunain. Maent yn ffordd y gall awdurdodau lleol helpu i ddiwallu angen cymwys unigolyn am ofal a chymorth, neu angen cynhaliwr am gymorth.<br><br>Maent yn ffordd i bobl drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain. |
| **Byw/Llety â Chymorth** | Mae llety byw â chymorth yn fath o dai sy'n darparu gofal personol, cymorth neu oruchwyliaeth i helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth ar wahân i'r contract tai. Gall y llety gael ei rannu neu'n sengl, yn dibynnu ar anghenion a dewisiadau'r preswylwyr. |

Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cynhaliwr Di-dâl** | Mae cynhaliwr di-dâl yn rhywun sy'n darparu gofal a chefnogaeth i aelodau o'r teulu, ffrindiau neu gymdogion sy'n cael eu heffeithio gan anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, gwendid neu gamddefnyddio sylweddau. Nid oes angen i'r cynhaliwr fod yn byw gyda'r person y mae'n gofalu amdano. |
| **Cynhaliwr Ifanc** | Mae cynhaliwr ifanc yn gynhaliwr di-dâl sydd hyd at 18 oed. Efallai y bydd yn darparu gofal a chymorth i rieni, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu. |
| **Cynllun Gofal a Chymorth** | Mae cynllun gofal a chymorth yn ddogfen sy'n nodi'r hyn sydd wedi'i drafod yn ystod asesiad anghenion gofal cymdeithasol a beth sy'n mynd i ddigwydd o ganlyniad i hynny. Mae'n gynllun y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei baratoi a'i gynnal o dan adran 54 (1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. |
| **Cynllun Cymorth i Gynhalwyr** | Os oes gan gynhalwyr di-dâl anghenion sy'n gymwys ar gyfer cymorth, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny a'u diwallu drwy ddarparu 'Cynllun Cymorth i Gynhalwyr.' Pan fo anghenion cymwys am gymorth yn cael eu nodi ar gyfer y cynhaliwr di-dâl, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. |
| **Eiriolaeth** | Mae eiriolwyr mewn gofal cymdeithasol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (y cyngor lleol) a'r GIG. Maent wedi'u hyfforddi i helpu pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu barn a'u dymuniadau, a helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. |
| **Atal ac Ymyrraeth Gynnar** | Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn fathau o gymorth sy'n anelu at wella deilliannau i bobl neu atal angen neu risg gynyddol. Cyfeirir atynt weithiau hefyd fel cymorth cynnar neu wasanaethau ataliol. |
| **Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014** | Y Rheoliadau a gyflwynodd broses dau gam newydd i ymdrin â chwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae'n dod â'r broses ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn unol â'r Polisi Pryderon a Chwynion enghreifftiol a Gweithdrefn Gwynion y GIG Gweithio i Wella. |

Rhestr termau

| Term/Acronym | Disgrifiad |
|---|---|
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** | Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn weithdrefn gyfreithiol yn y DU sydd wedi'i chynllunio i amddiffyn pobl agored i niwed mewn lleoliadau gofal. Mae'n berthnasol i oedolion sydd heb y gallu meddyliol i roi cydsyniad i'w trefniadau gofal ac sydd angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae DoLS yn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu cydsynio i'w gofal yn cael eu diogelu pan fydd eu trefniadau yn eu hamddifadu o'u rhyddid. Bydd yn cael ei ddisodli gan Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn y dyfodol. |
| **Mwy Na Geiriau** | Mae Mwy Na Geiriau yw strategaeth a chynllun cyflawni i anelu at wella ansawdd gofal i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog. |
| **Gofal ychwanegol** | Darparu pecyn gofal cartref i unigolyn sy'n byw mewn â chymorth/llety â chymorth. |
| **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** | Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hiliaeth a gwneud 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy' i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru. Nod y cynllun yw gwneud Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030. |
| **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh)** | Cyfeirio at gysylltiadau ac atgyfeiriadau – cydsyniad a lefel y wybodaeth a gofnodir – cysylltu ag asesiad cymesur. |
| **Heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** | Mae NEET yn sefyll am "Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth, na Hyfforddiant". Mae'n cyfeirio at bobl ifainc nad ydynt yn ymwneud ag addysg na hyfforddiant galwedigaethol nac mewn cyflogaeth â thâl. Gall unigolion NEET brofi anfantais gymdeithasol ac economaidd. |
| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gyfraith sy'n anelu at wella llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a chynhalwyr y mae angen cymorth arnynt, ac i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. |
| **Microfentrau** | Mae microfentrau yn ddarparwyr gofal bach, yn y gymuned sydd wedi'u cynllunio i ateg gofal cartref traddodiadol. Maent yn cynnig dull personol, gan gynyddu dewis a rheolaeth i unigolion sydd ag anghenion gofal wrth ddarparu cyfleoedd i entrepreneuriaid lleol weithio yn eu cymunedau. |